



Adroddiad Ymchwilio Effaith Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: canfyddiadau ymchwil o ddeiliaid grantiau diweddar

29 Mehefin 2021

Awduron: Mark Winterbotham, Claire Johnson, Libby Eastwood, Aminul Hassan a Jenny Hull

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	3
2	Cyflwyniad	8
3	Ar gyfer beth mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio?	13
4	Pa gyrhaeddiad mae'r grant wedi'i gael?	28
5	Pa wahaniaeth mae'r grantiau wedi'i wneud?	38

6	Casgliadau	50
7	Atodiad Yr Adroddiad	54

1 Crynodeb Gweithredol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y 'Gronfa') yw'r ariannwr cymunedol mwyaf yn y DU, gan ddsbarthu £3.4 biliwn ers 2016, i ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio ar bynciau'n cynnwys iechyd a lles, gwella sgiliau ac addysg a dod â chymunedau at ei gilydd. Mae cyfran fawr (82%) o grantiau'r Loteri Genedlaethol am hyd at £10,000 ac fe'u diffinnir fel grantiau 'bach', tra bod y gweddill yn grantiau 'safonol', gyda gwerth mwy na £10,000. Mae'r ymchwil yn cynnwys deiliaid grantiau ar draws yr holl bortffolios ariannu: Cymru, Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r DU.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ymchwil sy'n ymchwilio i gyrhaeddiad ac effaith grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, gan ganolbwyntio ar grantiau a gynhaliwyd cyn y pandemig (cyn mis Ebrill 2020). Roedd yr ymchwil yn cynnwys arolwg ar-lein a gwblhawyd gan 5,246 o ddeiliaid grantiau, a'r prif nod oedd casglu a dadansoddi data allbwn a chanlyniadau safonol o sampl gynrychioliadol o ddeiliaid grantiau ac allosod y data hwn i gyllid nodweddiadol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Ochr yn ochr â'r arolwg hwn, cynhaliwyd 14 astudiaeth achos ansoddol i roi cipolwg dyfnach ar gyrhaeddiad a chanlyniadau'r grant.

Mae cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi galluogi prosiectau i gyrraedd dros 5 miliwn o fuddiolwyr

Nod deiliaid grantiau yn bennaf oedd defnyddio'r grant i gynyddu eu gallu neu gyrraedd mwy o fuddiolwyr (62%), er ei fod yn aml hefyd yn eu helpu i greu gwasanaethau neu weithgareddau newydd (52%) neu gyrraedd buddiolwyr newydd (49%).

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y sefydliadau sy'n derbyn grantiau gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mewn blwyddyn nodweddiadol yn cefnogi 5.2m o fuddiolwyr ar draws oes y grant, ac yn ystadegol gallwn fod 95% yn hyderus bod y ffigur rhwng 4.2 miliwn a 6.2 miliwn.¹

Pan ofynnwyd i ddeiliaid grantiau² faint o fuddiolwyr unigryw a gefnogwyd yn uniongyrchol gan eu sefydliad o ganlyniad i'r grant a dderbyniwyd, y cyfartaledd cymedrig oedd 455³. Roedd nifer cymedrig y buddiolwyr yn uwch ar gyfer grantiau safonol (1,430 vs. 315 ar gyfer grantiau bach), grantiau portffolio'r DU o'i gymharu â Lloegr (1,130 vs. 430), grantiau mewn ardaloedd trefol (515 vs. 270 mewn ardaloedd gwledig), a chynyddodd gyda maint y sefydliad (o 235 mewn sefydliadau meicro a 300 mewn sefydliadau bach i dros 14,000 mewn sefydliadau mawr iawn).⁴

Gofynnwyd i ddeiliaid grantiau a ddefnyddiodd y grant i wella manau a lleoedd yn eu cymuned faint o bobl sy'n defnyddio'r manau neu'r lleoedd a gefnogir gan y grant mewn mis arferol. Y rhif cymedrig oedd 325 o fuddiolwyr y mis. **Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau, pan fyddant yn cael eu**

¹ Noder y gofynnwyd i bob sefydliad am nifer y buddiolwyr unigryw yr oeddent yn eu cefnogi gyda'r grant, ond efallai y bydd gwahanol ddeiliaid grantiau yn cyfrif unigolion ddwywaith (h.y. pe bai dau ddeiliad grant gwahanol yn cefnogi person).

² Pob deiliad grant, ac eithrio'r rhai a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar wella manau a lleoedd yn eu cymuned.

³ Mae'r canlyniadau ar gyfartaleddau cymedrig ar gyfer niferoedd buddiolwyr wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf drwy gydol yr adroddiad.

⁴ Mae'r diffiniadau o feintiau sefydliadau i'w gweld yma <https://blogs.ncvo.org.uk/2019/01/21/small-charities-key-findings-from-our-data/>

hallosod i grantiau nodweddiadol, yn dangos, lle defnyddiwyd grantiau i wella mannau a lleoedd, bod 1.8m o bobl yn defnyddio'r rhain bob mis.

Mae'r cyllid wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i les cymdeithasol pobl

Y gwahaniaeth i unigolion

Nododd bron pob deiliad grant (97%) fanteision i unigolion o ganlyniad i'r gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant; o'r rhain, roedd deiliaid grantiau wedi darparu cyfartaledd cymedrig o 5.5 o fanteision yr un.⁵ Adroddwyd am ystod eang o fanteision, gyda'r rhai mwyaf cyffredin yn ymwneud â gwella lles 'cymdeithasol' unigolion.

Soniodd o leiaf dwy ran o dair am:

lechyd a lles meddwl gwell

mwy o gyswllt cymdeithasol (77%),

gwell hyder a hunan-barch (72%); a

theimlo'n llai unig (66%).

Adroddodd rhwng dwy ran o bump a hanner am well mynediad at wybodaeth a chymorth i wella eu gwybodaeth (48%), gwell iechyd corfforol (45%); a gwell addysg a datblygiad (43%).

O'i gymharu â'r manteision personol a chymdeithasol a restrir uchod, soniodd llai o ddeiliaid grantiau am fudd-daliadau 'sefyllfaol' megis gwella sefyllfaoedd tai pobl (8%), eu lles ariannol a materol yn gwella (15%), cael eu diogelu'n well rhag niwed, trais neu gamdriniaeth (15%), neu eu sefyllfa gyflogaeth yn gwella (18%). Mae'n debygol y bydd y canlyniadau hyn yn deillio o weithgarwch wedi'i dargedu'n fwy, gyda dim ond rhai deiliaid grantiau yn darparu cymorth yn y meysydd hyn.

Roedd cysylltiad mawr rhwng gwelliannau i 'sefyllfaoedd' unigolion â manteision 'cymdeithasol' megis gwell hyder a hunan-barch ac iechyd meddwl a lles. Er enghraifft, roedd y mwyafrif llethol o ddeiliaid grantiau a ddywedodd fod sefyllfa tai pobl wedi gwella o ganlyniad i'r gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant hefyd yn nodi gwell iechyd meddwl a lles (93%) a hyder, hunan-barch a gwydnwch pobl yn gwella (92%).

Canfu dadansoddiad atchweliad sy'n archwilio'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar nifer y mathau o fanteision a nodwyd gan ddeiliaid grantiau mai grantiau sy'n cynnig cymorth un-i-un yw'r ffactor sy'n gysylltiedig fwyaf â nifer fawr o fathau o fanteision i unigolion. Mae cymorth iechyd a lles, darparu gwybodaeth a chynghor, a grantiau lle mae'r buddiolwr yn ymgysylltu am chwe mis neu fwy, hefyd yn ffactorau sy'n gysylltiedig â nifer uchel o fathau o fanteision i unigolion.

⁵ Cyflwynwyd rhestr o 13 o fanteision posibl i unigolion i ddeiliaid grantiau (gallent hefyd deipio rhai ychwanegol).

Y gwahaniaeth i gymunedau

Dywedodd bron pob deiliad grant (92%) fod y gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant yn cyfrannu at fanteision cymunedol, gyda phob un yn rhoi 3.2 o fanteision ar gyfartaledd.⁶ Dywedodd dros hanner fod y grant wedi eu helpu i gyfrannu at:

darparu cyfleoedd i bobl gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (66%),

mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn eu cymuned a helpu i ddiwallu anghenion lleol (60%), a

mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael yn y gymuned (56%).

Dywedodd dros ddwy ran o bump (42%) fod pobl yn mynegi mwy o falchder lleol ac ymdeimlad o berthyn o ganlyniad i weithgareddau'r deiliaid grantiau, ac roedd dros chwarter (28%) yn teimlo bod gwasanaethau lleol bellach yn fwy cysylltiedig, ar gael ac yn haws eu defnyddio.

Roedd maint y grant yn effeithio ar nifer y manteision a gyflawnwyd: o 2.7 ar gyfer grantiau o £5,000 neu lai, i 3.2 ar gyfer grantiau yn yr ystod o £5,001 - £10,000, i 3.8 ar gyfer grantiau safonol.

Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod cysylltiad agos rhwng rhai manteision cymunedol a rhai manteision unigol penodol. Er enghraifft, roedd grantiau a gyfrannodd at bobl yn cael y cyfle i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw'n fwy tebygol o roi gwybod i unigolion am fwy o gyswllt cymdeithasol (89% vs. cyfartaledd o 77% ar gyfer pob deiliad grant), gwell iechyd meddwl a lles (87% vs. 78%), gwell hyder a hunan-barch (82% vs. 72%), a theimlo'n llai unig (79% vs. 66%) pob deiliad grant. Yn yr un modd, roedd y rhai adroddodd am amwynderau lleol yn cael eu hachub rhag cau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am fwy o gyswllt cymdeithasol (88%) a phobl yn teimlo'n llai unig (82%).

Roedd yr effeithiau'n amrywio **yn ôl y math o weithgaredd**, gyda rhai mathau o weithgarwch yn fwy tebygol o sicrhau manteision unigol (cymorth argyfwng, cymorth materol a lles), ac mae eraill yn fwy tebygol o sicrhau manteision cymunedol yn hytrach nag unigolion (cymorth a datblygiad sector).

Mae gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn gysylltiedig yn arwain at ystod ehangach o fanteision

Roedd deiliaid grantiau a ddywedodd fod eu gweithgareddau'n gwneud gwasanaethau lleol yn fwy hygyrch a chysylltiedig (28%) yn fwy tebygol o adrodd am nifer o fanteision i unigolion. Y rhain oedd: mwy o fynediad at wybodaeth a chymorth i wella eu gwybodaeth (75% vs. 48% ar gyfartaledd ymhlith yr holl ddeiliaid grantiau), gwell fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (52% vs. cyfartaledd o 26%), gwell lles ariannol a materol (30% vs. cyfartaledd o 15%), gwell sefyllfa o ran cyflogaeth (29% vs. cyfartaledd o 18%), a gwell tai (17% vs. cyfartaledd o 8%). Mae hyn yn awgrymu posiblirwydd bod hygyrchedd gwasanaethau lleol yn gysylltiedig â manteision eraill i unigolion.

Mae cymorth yn cael ei ddarparu wyneb yn wyneb yn bennaf

Roedd y mwyafrif helaeth o'r grantiau'n darparu eu cymorth wyneb yn wyneb (86%) ac roedd ychydig dros chwarter (27%) yn ei ddarparu fel hyn yn unig. O'i gymharu roedd rhwng traean a dwy ran o bump yn darparu cymorth drwy ddeunyddiau ysgrifenedig gan gynnwys gwybodaeth ar y wefan (39%), dros y ffôn (38%), drwy gyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter (36%), neu drwy

⁶ Cyflwynwyd rhestr o wyth mantais gymunedol posibl i ddeiliaid grantiau (gallent hefyd deipio rhai ychwanegol).

negeseua fel e-byst, negeseuon testun neu WhatsApp (33%). Roedd ychydig yn llai wedi defnyddio galwadau fideo neu lwyfannau ar-lein fel Zoom (25%).

Roedd gwahaniaethau yn y ffordd y cafodd y grant ei ddarparu fel a ganlyn:

- Roedd grantiau a oedd yn anelu at gyflawni ymgysylltiad â'r gymuned yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio pob sianel, gyda'r gwahaniaeth wedi'i farcio'n arbennig ar gyfer gwybodaeth ysgrifenedig (48% vs. y cyfartaledd o 39%) a'r cyfryngau cymdeithasol (47% vs. 36%).
- Roedd grantiau mewn lleoliadau trefol yn fwy tebygol na'r rhai mewn rhai gwledig o ddarparu gan ddefnyddio galwadau ffôn (42% vs. 25%), negeseua (35% vs. 26%) a galwadau / cyfarfodydd fideo (28% vs. 15%).
- Defnyddiodd grantiau portffolio'r DU lai o wahanol ddulliau o ddarparu cymorth ac roeddent yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio wyneb yn wyneb (71% o gymharu â'r cyfartaledd o 86%), negeseua (26% vs. 33%) neu dros y ffôn (25% vs. 38%).
- Roedd grantiau tymor byr o lai na chwe mis yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio wyneb yn wyneb (69% vs. 86%), deunyddiau ysgrifenedig (32% vs. 39%), negeseua (26% vs. 33%) neu alwadau ffôn (22% vs. 38%) i ddarparu eu cefnogaeth.

Gofynnwyd i ddeiliaid grantiau nad oeddent yn defnyddio'r grant i wella manau a lleoedd yn eu cymuned yn unig am fformat eu cefnogaeth. Roeddent yr un mor debygol o ddarparu gweithgareddau neu gymorth un i un (63%), cymorth i grwpiau mawr o 10 neu fwy (63%), neu i grwpiau llai (61%). Roedd tua thri o bob deg (31%) yn rhoi cymorth i grwpiau teuluol.

Gwelodd grantiau sy'n cynnwys asedau a manau fod buddiolwyr yn ymgysylltu am fwy o amser na mathau eraill o grantiau

Roedd yr amser mae buddiolwyr fel arfer yn ymwneud â chymorth a ariennir gan grant yn amrywio yn ôl ffocws y cymorth. Roedd mwy na hanner y deiliaid grant fel arfer yn ymgysylltu â buddiolwyr am dros flwyddyn lle'r oeddent yn ceisio gwella manau a lleoedd cymunedol (69%), chwaraeon a hamdden (57%), yr amgylchedd (55%), a chysylltiadau cymdeithasol a chymunedol (52%). (O'i gymharu, lle defnyddiwyd y grant i gefnogi cyflogaeth a menter, cymorth materol a lles/anghenion sylfaenol, digidol a chymorth argyfwng, dywedodd llai na thraean fod ymgysylltiad nodweddiadol â buddiolwr am fwy na 12 mis (30%, 30%, 30% a 24% yn y drefn honno).

Cyflawnwyd y gweithgareddau a ariannwyd gan grant yn gyffredin drwy recriwtio gwirfoddolwyr newydd, ac yn llai felly drwy weithio mewn partneriaeth

Gweithio gyda gwirfoddolwyr a'u recriwtio

Yn gyffredinol, gweithiodd deiliaid grantiau gyda thua 290,000 o wirfoddolwyr. Gweithiodd dros bedair rhan o bump (82%) o sefydliadau gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'u grant. Roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith sefydliadau meicro a bach (86% ac 87%) na sefydliadau mwy (ymhlith sefydliadau mawr a mawr iawn, gwnaeth ychydig o dan dair rhan o bump hynny). Roedd gweithio gyda gwirfoddolwyr yn llai tebygol na'r cyfartaledd lle defnyddiwyd y grant ar gyfer gwella asedau a chyfleusterau yn unig (67%). Gweithiodd y deiliaid grant hyn gyda chyfartaledd cymedrig o 15 o wirfoddolwyr yr un (y canolrif oedd 8).

Defnyddiodd tri o bob deg o ddeiliaid grantiau (29%) y grant i recriwtio gwirfoddolwyr: **mae canlyniadau'n dangos bod y grant wedi'i ddefnyddio i helpu i recriwtio 81,000 o wirfoddolwyr newydd.**

Gweithio gyda phartneriaid

Gweithiodd ychydig dros hanner y deiliaid grantiau gyda sefydliadau eraill i gyflawni'r gweithgareddau a ariannwyd gan eu grant. Roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith: deiliaid grantiau safonol (63%), sefydliadau mawr, mawr iawn a hynod fawr (61%), portffolio'r Alban (57%), a deiliaid grantiau trefol (54%).

Roedd deiliaid grantiau yn fwyaf tebygol o fod wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol (roedd 31% o'r holl ddeiliaid grantiau wedi gwneud hynny), elusennau cofrestredig (28%), awdurdodau lleol (21%, yn codi i 25% ar gyfer yr Alban a 26% ar gyfer grantiau portffolio Cymru), neu wasanaethau cyhoeddus eraill fel y GIG, ysgolion neu'r heddlu (19%).

Nododd dadansoddiad atchweliad mai darparu'r gweithgaredd neu'r cymorth "wyneb yn wyneb" oedd y sbardun pwysicaf i weithio mewn partneriaeth.

Cadw staff neu recriwtio staff newydd gyda'r grant

Defnyddiodd chwarter y deiliaid grant (26%) ryw faint o'r grant i gadw staff neu recriwtio staff newydd. Roedd hyn yn llawer uwch ymhlith grantiau safonol na grantiau bach (72% vs. 20%) ac ymhlith portffolios Cymru, Lloegr a'r Alban (28%, 30% a 28%) nag ar gyfer portffolios Gogledd Iwerddon neu'r DU (13% ac 16%). **Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod ychydig dros 4,700 o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu recriwtio neu eu cadw o ganlyniad i'r grantiau.**

Casgliad

I gloi, mae deiliaid grantiau wedi defnyddio eu grant yn bennaf gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gynyddu eu gallu a chyrraedd mwy o fuddiolwyr. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn y nod hwn, gyda'r grantiau ar y cyd yn effeithio'n uniongyrchol ar fwy na 5 miliwn o fuddiolwyr. Mae'r cyllid grant wedi cael effaith helaeth ar unigolion a chymunedau, gyda mwy o gysylltiad cymdeithasol a lles ar flaen y gad.

2 Cyflwyniad

Ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y 'Gronfa') yw'r ariannwr cymunedol mwyaf yn y DU, gan ddsbarthu £3.4 biliwn, i gymunedau ledled y DU ers 2016. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn rhoi arian i amrywiaeth eang o sefydliadau, megis elusennau, ysgolion a sefydliadau'r sector cyhoeddus, ar draws ei gwahanol feintiau o raglenni grant a chyllid. Mae'n ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio ar bynciau'n cynnwys iechyd a lles, gwella sgiliau ac addysg a dod â chymunedau at ei gilydd. Mae cyfran fawr (82%) o grantiau'r Loteri Genedlaethol am hyd at £10,000 (grantiau 'bach'), gyda'r arian hwn yn mynd i grwpiau ac elusennau ar lawr gwlad ledled y DU. Mae deiliaid grantiau yn defnyddio'r grantiau ar gyfer pethau fel costau cyfalaf, costau staff, costau rhedeg, gweithgareddau ac offer.

Nodau ac amcanion ymchwil

Nod yr ymchwil hon oedd casglu data cynrychioliadol am gyrrhaeddiad ac effaith nodweddiadol grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth mae grantiau yn ei wneud i ddeiliaid grantiau, buddiolwyr a'r gymuned ehangach. Bydd hyn yn helpu'r Gronfa i wella eu harferion a chyfathrebu'n gliriach am y gwaith maen nhw'n ei ariannu. Ym mis Ebrill 2021, fe wnaeth y Gronfa gontractio IFF Research i gynnal yr ymchwil hon. Mae'r ymchwil hon yn canolbwyntio ar grantiau a gynhaliwyd cyn y pandemig (cyn mis Ebrill 2020) ac a ddaeth i ben rhwng Ionawr 2019 a Mehefin 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau hyn yn dod o dan ddau gynnyrch ariannu craidd:

- Bach: grantiau hyd at £10k
- Safonol: grantiau dros £10k, gan gynnwys grantiau partneriaeth

Roedd yr ymchwil yn cynnwys deiliaid grantiau ar draws yr holl bortffolios ariannu: Cymru, Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r DU. Roedd yn bwysig i'r ymchwil hon gwmpasu holl bortffolios y Gronfa. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod llawer o ddeiliaid grantiau ym mhorthfolio'r DU yn cyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar arloesi a newid yn y system, y mae'n anodd mesur eu heffaith ac efallai na fyddant yn cael eu dal yn llawn gyda'r dulliau a ddefnyddir yma. Felly, nid oes modd cymharu canlyniadau deiliaid grantiau'r DU yn uniongyrchol â phorthfolios eraill.

Prif nod yr ymchwil oedd casglu a dadansoddi data allbwn a chanlyniadau safonol o sampl gynrychioliadol o ddeiliaid grantiau ac allosod y data hwn i grantiau nodweddiadol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Ochr yn ochr â'r arolwg hwn, mae cyfres o astudiaethau achos ansoddol yn rhoi cipolwg dyfnach ar amrywiaeth o grantiau penodol: sut y cawsant eu darparu; pwy gwnaethon nhw eu cyrraedd; pa ganlyniadau a gyflawnwyd ganddynt, a'r galluogwyr a'r heriau allweddol i gyflawni.

Nod yr arolwg a'r astudiaethau achos gyda'i gilydd oedd archwilio:

Beth y defnyddiwyd y grant ar ei gyfer (i ateb y galw cynyddol, addasu gwasanaeth, buddsoddi mewn seilwaith ac ati) a sut y darparwyd gweithgareddau grant (digidol, wyneb yn wyneb ac ati)

Cyrrhaeddiad y cyllid: nifer y buddiolwyr a gefnogwyd a'u nodweddion, nifer y gwirfoddolwyr sy'n cael eu paratoi a staff mewn sefydliadau sy'n ddeiliaid grantiau sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i'r grantiau.

Y gwahaniaeth a wnaed o ganlyniad i'r grantiau, naill ai mewn seilwaith cymdeithasol (asedau, adnewyddu, manau a lleoedd), cyfalaf cymunedol (rhwydweithiau, gwirfoddolwyr, llais a chyfranogiad), cysylltiad cymdeithasol (digwyddiadau, grwpiau, perthnasoedd) neu les a gwydnwch unigol (gwell lles corfforol, iechyd meddwl, gwydnwch ariannol, ac ati).

Dull

Cynhaliwyd yr arolwg a'r astudiaethau achos ar yr un pryd ym mis Mai a mis Mehefin 2021. Gwahoddwyd pob deiliad grant cymwys naill ai i'r arolwg neu i gymryd rhan mewn astudiaeth achos. Cafodd nifer fach o grantiau eu heithrio - mae'r paragraff cyflwr sampl yn yr atodiad technegol yn esbonio hyn yn fanylach.

Arolwg meintiol

Cynhaliwyd yr arolwg o ddeiliaid grantiau ar-lein yn bennaf, gyda galwadau ffôn i annog ymatebion yng nghamau olaf y gwaith maes. Darparodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol sampl o ddeiliaid grantiau y daeth eu grant i ben rhwng Ionawr 2019 a Mehefin 2020. Cysylltwyd â phob deiliad grant drwy e-bost ar 4 Mai 2021, a gwahoddwyd nhw i gymryd rhan mewn arolwg 10 munud am eu grant.

Dilynwyd yr e-bost gwahodd cychwynnol gan ddau e-bost atgoffa, a galwadau ffôn dilynol i roi hwb i'r gyfradd ymateb. O'r 16,969 o ddeiliaid grant a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg, cwblhaodd 5,246 o ddeiliaid grantiau: **cyfradd ymateb o 31%**.

Astudiaethau achos

Cynhaliwyd cam ansoddol hefyd ym mis Mai a mis Mehefin 2021, gan gynnwys **14 o astudiaethau achos** wedi'u gwasgaru ar draws deiliaid grantiau ym mhob portffolio ariannu. Dewiswyd sampl yr astudiaeth achos i ddarparu cynrychiolaeth eang ar draws grantiau syml a safonol, sy'n cwmpasu pob portffolio, ac ystod o brosiectau gweithgarwch ac asedau. Roedd pob astudiaeth achos yn cynnwys rhwng 2 ac 8 cyfweiliad gydag ystod o randdeiliaid allweddol (arweinwyr prosiect, staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr, ac mewn rhai achosion sefydliadau partner).

Proffil o ddeiliaid y grant a ymatebodd i'r arolwg

Tabl 1. Proffil o ddeiliaid grantiau a arolygwyd yn ôl portffolio a chynnyrch ariannu

Portffolio	Grantiau safonol	Grantiau bach	Cyfanswm:
Lloegr	268	3,502	3,770
Yr Alban	107	500	607
Cymru	27	282	309
Gogledd Iwerddon	14	293	307

Y DU	40	213	253
Cyfanswm:	456	4,790	5,246

Tabl 2. Proffil deiliaid grantiau a arolygwyd yn ôl portffolio a chynnyrch ariannu o'i gymharu â phroffil a chyfrif mewn blwyddyn nodweddiadol

Portffolio yn ôl maint y grant	Grantiau bach			Grantiau safonol		
	Proffil yr arolwg %	Proffil mewn blwyddyn nodweddiadol %	Cyfrif mewn blwyddyn nodweddiadol	Proffil yr arolwg %	Proffil mewn blwyddyn nodweddiadol %	Cyfrif mewn blwyddyn nodweddiadol
Lloegr	66.8%	62.9%	7,799	5.1%	7.8%	972
Yr Alban	9.5%	8.6%	1,065	2.0%	1.8%	217
Cymru	5.4%	5.7%	708	0.5%	0.7%	91
Gogledd Iwerddon	5.6%	4.5%	561	0.3%	0.4%	48
Y DU	4.1%	6.3%	784	0.8%	1.2%	153

Tabl 3. Proffil o ddeiliaid grantiau a arolygwyd yn ôl portffolio a threfol/gwledig⁷

Portffolio	Trefol	Gwledig	Cyfanswm:
Lloegr	2,903	867	3,770
Yr Alban	431	176	607
Cymru	192	117	309
Gogledd Iwerddon	172	135	307
Y DU	152	57	209
Cyfanswm:	3,850	1,352	5,202

⁷ Diffiniwyd y rhain gan ddefnyddio'r codau post a ddarparwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Defnyddiwyd diffiniadau dosbarthiad Gwledig/Trefol 2011 (defnyddiwyd diffiniadau 2001 ar gyfer Gogledd Iwerddon) ac mae'r rhain i gyd i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/government/collections/rural-urban-classification>

Nodyn: Nid oedd gan 44 o grantiau god post cysylltiedig felly nid oedd yn bosibl nodi a ydynt yn grant gwledig neu drefol.

Tabl 4. Proffil o ddeiliaid grantiau astudiaethau achos yn ôl portffolio a chynnyrch ariannu

Portffolio	Grantiau safonol	Grantiau bach	Cyfanswm:
Lloegr	2	4	6
Yr Alban	2	1	3
Cymru	0	1	1
Gogledd Iwerddon	1	1	2
Y DU	1	1	2
Cyfanswm:	6	8	14

Gyda 5,246 o ddeiliaid grantiau yn cwblhau'r arolwg, roedd proffil yr ymatebydd yn cynrychioli'n ddigonol y gwahanol bortffolios a meintiau grant y Gronfa mewn blwyddyn nodweddiadol.

Pwysoli ac allosod

Yn dilyn gwaith maes, cafodd data'r arolwg ei bwysoli wedyn i broffil deiliaid grantiau y mae'r Gronfa'n eu cefnogi mewn blwyddyn nodweddiadol. Gwnaed hyn drwy gymryd nifer y dyfarniadau a wnaed yn ôl portffolio a maint y grant bob blwyddyn, yn ystod blynyddoedd ariannol 2016 i 2020, ac eithrio grantiau trydydd parti. Yn dilyn hyn, cymerwyd cyfartaledd cymedrig o'r pum mlynedd hyn. Roedd y pwysoliad hwn fel bod data'r arolwg yn parhau i fod yn gynrychioliadol o grantiau y byddai'r Gronfa'n eu dyfarnu mewn blwyddyn arferol. Rheswm arall dros bwysoli'r data oedd sicrhau y gellid ei allosod i gyllid cyffredinol y Gronfa a chynhyrchu priif ffigurau ynghylch buddiolwyr a niferoedd gwirfoddolwyr a gefnogir gan y Gronfa mewn blwyddyn nodweddiadol. Ar gyfer hyn, roedd meintiau sylfaen yr arolwg wedi'u trosi'n ddata gros i gyfateb i nifer gyffredinol y grantiau a ariannwyd mewn blwyddyn nodweddiadol yn ôl portffolio a chynnyrch ariannu - fel y dangosir yn Nhabl 2 uchod.

Er bod hwn yn ddull cadarn, mae materion posibl gyda chynhwysedd yr allosod o hyd. Fel y nodwyd, mae grantiau sy'n cael eu cyd-ariannu gyda sefydliadau eraill (y cyfeirir atynt fel grantiau trydydd parti) wedi'u heithrio. Yn ogystal, efallai na fydd nifer fach o grantiau sy'n cyrraedd nifer fawr iawn o bobl bob blwyddyn yn cael eu cynrychioli'n llawn os nad wnaeth eu grant gau yn ystod yr amser dan sylw, ac oherwydd ei bod yn heriol allosod data i allanolynnau (h.y. deiliaid grantiau gyda niferoedd buddiolwyr uchel). Yn fwyaf nodedig, nid yw'r Cinio Mawr sy'n rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan Brosiect Eden a gyrhaeddodd 6 miliwn o bobl y flwyddyn cyn y pandemig⁸, wedi'i chynnwys yn yr ymchwil hwn.

⁸ Am ragor o wybodaeth gweler yma: <https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/the-big-lunch>

Yng ngweddill yr adroddiad hwn, rydym yn nodi canfyddiadau'r ymchwil hon:

- Mae Pennod 3 yn archwilio sut y defnyddiwyd grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol sy'n cael eu cwmpasu gan gyfnod yr arolwg. Mae'n manylu ar y cymorth neu'r gweithgareddau mae deiliaid grantiau wedi'u darparu, am ba hyd maen nhw fel arfer yn ymgysylltu â buddiolwyr, ac i ba raddau maen nhw'n darparu grantiau drwy bartneriaethau â sefydliadau eraill.
- Mae Pennod 4 yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad y grantiau. Mae'n adrodd ar nifer y buddiolwyr a gyrhaeddodd deiliaid grantiau drwy eu gweithgareddau, nifer y gwirfoddolwyr y bu'n gweithio gyda'r grant i gyflawni eu prosiectau, nifer y gwirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd, a nifer y staff a recriwtiwyd neu a gadwyd o ganlyniad i'r grantiau.
- Mae Pennod 5 yn archwilio pa wahaniaeth mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi'i wneud, o ran canlyniadau unigolion a chymunedol, a'r manteision penodol a ddeilliodd o wahanol fathau o weithgarwch a ariennir gan grantiau.
- Mae'r Casgliad yn dwyn ynghyd y prif ganfyddiadau o dan bob cwestiwn ymchwil i dynnu sylw at bwyntiau allweddol am natur, cyrhaeddiad ac effeithiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o ran meithrin gallu a gwella canlyniadau i unigolion a chymunedau.


3 Ar gyfer beth mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio?

Mae'r bennod hon yn manylu ar y cymorth neu'r gweithgareddau mae deiliaid grantiau wedi'u darparu drwy eu grantiau, am ba hyd maen nhw fel arfer yn ymgysylltu â buddiolwyr, ac i ba raddau maen nhw'n darparu grantiau drwy bartneriaethau â sefydliadau eraill.

Defnyddiwyd arian grant i gynyddu capasiti a chyrraedd mwy o fuddiolwyr

Defnyddiwyd arian y grant amlaf i gynyddu capasiti neu gyrraedd mwy o fuddiolwyr (62%), ac yna creu gweithgareddau neu wasanaethau newydd (52%), a chyrraedd buddiolwyr newydd (49%).

Ffigur 3.1 Beth wnaeth y grant ei gefnogi neu helpu'r sefydliad i'w wneud




A1. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol a wnaeth y grant ei gefnogi neu helpu eich sefydliad i'w wneud? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Defnyddiodd llai o ddeiliaid grantiau arian i newid neu addasu eu modelau cyflenwi (23%), gan awgrymu bod yr arian wedi'i ddefnyddio i sicrhau twf a chynnydd mewn cyrhaeddiad, yn fwy na newid darpariaeth neu gynyddu effeithlonrwydd.

Fel y dangosir yn ffigur 3.2, roedd deiliaid grantiau safonol yn fwy tebygol na deiliaid grantiau bach o fod wedi defnyddio'r cyllid ym mhob un o'r ffyrdd a restrir (o leiaf 10 pwynt canran, weithiau o 20 pwynt canran neu fwy) ac eithrio ar gyfer gwella lleoedd a lleoedd yn eu cymuned (32% vs. 44% ymhlith grantiau bach). Mae hyn yn awgrymu bod deiliaid grantiau safonol yn gweithio ar draws sawl diben, mewn ffordd nad oedd deiliaid grantiau bach. Dangosir hyn gan nifer cyfartalog yr atebion a ddewiswyd gan ddeiliaid grantiau safonol o'i gymharu â deiliaid grantiau bach (5.0 vs. 3.6 atebion a ddewiswyd ar gyfartaledd gan ddeiliaid grantiau bach).

Ffigur 3.2 Beth wnaeth y grant gefnogi neu helpu'r sefydliad i'w wneud: grantiau safonol o'i gymharu â grantiau llai



A1. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol a wnaeth y grant ei gefnogi neu helpu eich sefydliad i'w wneud? Codau eraill <2% heb eu siartio. Mae saeth werdd yn rhoi arwyddocâd ystadegol rhwng grantiau safonol a grantiau bach. Sylfaen: Bach (4,790) a Safonol (456)

Roedd deiliaid grantiau portffolio'r DU yn tueddu i fod yn llai tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am lawer o'r gweithgareddau. Er enghraifft, dywedodd llai na hanner (48%) deiliaid grantiau portffolio'r DU eu bod wedi defnyddio'r grant i gyrraedd mwy o fuddiolwyr, yn is na'r cyfartaledd ar draws pob portffolio (62%). Roeddent hefyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am greu gweithgareddau a gwasanaethau newydd (46% vs. (52%), cyrraedd buddiolwyr newydd (42% vs. 49%) neu gefnogi mwy o wirfoddolwyr (26% vs. 35%).

Roedd y rhanbarth yr oedd deiliad grant yn gweithredu ynddo yn effeithio ar sut y defnyddiwyd y grant. Roedd y tueddiadau hyn yn arbennig o drawiadol yn yr achosion lle defnyddiwyd y grant i gyrraedd buddiolwyr newydd, neu i wella manau a lleoedd yn y gymuned.

Roedd deiliaid grantiau yn y De-orllewin (53%) a Gogledd Iwerddon (50%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd ar draws pob rhanbarth (43%) o fod wedi defnyddio'r grant i wella manau a lleoedd yn y gymuned, tra bod deiliaid grantiau yn Llundain (26%) a'r Gogledd Ddwyrain (33%) yn llawer llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gwneud hynny.


Fodd bynnag, deiliaid grantiau yn Llundain oedd y mwyaf tebygol o fod wedi defnyddio'r grant i gyrraedd buddiolwyr newydd (62%). Deiliaid grantiau yn yr Alban oedd y lleiaf tebygol o ddefnyddio'r grant i gefnogi hyn (43%).

Cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol oedd y mathau mwyaf cyffredin o weithgarwch a ddarparwyd gan ddefnyddio grantiau

Y math mwyaf cyffredin o weithgarwch a ddarparwyd gan ddefnyddio grantiau oedd cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol fel cyfeillio, preswylfeydd/tripiau, clybiau, digwyddiadau cymunedol, grwpiau cymunedol, a gwirfoddoli (57%); gweler Ffigur 3.3. Roedd bron i hanner (46%) yn darparu gweithgareddau iechyd a lles ac roedd dwy ran o bump (39%) yn darparu ymgysylltiad cymunedol (fel

cyd-gynhyrchu, datblygu cymunedol, hyfforddiant arweinyddiaeth a mentora a chymorth gan gymheiriaid).

Ffigur 3.3 Pa fathau o weithgarwch neu gymorth a wnaeth y sefydliad ei gyflawni gan ddefnyddio'r grant⁹



A2. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau canlynol o weithgarwch neu gymorth a wnaeth eich sefydliad eu cyflawni drwy ddefnyddio'r grant a dderbyniwyd? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Un enghraifft o un o'r nifer fawr o ddigwyddiadau cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol a gyflwynwyd gyda'r arian grant oedd digwyddiad Pride Swindon a Wiltshire yn 2019.

Astudiaeth achos: Pride Swindon a Wiltshire


Derbyniodd digwyddiad Pride Swindon a Wiltshire 2019 grant o £10,000. Defnyddiwyd hwn i dalu am y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen i gynnal digwyddiad yn ystod y dydd yn ystod yr ŵyl yn ogystal â gorymdaith *pride*. Roedd y costau a gwmpesir gan arian y grant yn cynnwys gwasanaethau diogelwch ac yswiriant ar gyfer y digwyddiad. Yn 2018, ni aeth y digwyddiad yn ei flaen gan nad oedd y pwyllgor wedi gallu sicrhau grant ar ei gyfer. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y gronfa o ran sicrhau y gellid cynnal y digwyddiad.

Roedd deiliaid grantiau safonol yn fwy tebygol na deiliaid grantiau bach o fod wedi darparu'r gweithgareddau mwyaf cyffredin, gan gynnwys cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol (64% vs. 56%), iechyd a lles (61% vs. 44%) ac ymgysylltu â'r gymuned (52% vs. 37%). Roedd y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth yn arbennig o amlwg ar gyfer gwybodaeth a chyngor (47% vs. 20%), cyflogaeth a menter (30% vs. 11%) a chymorth a datblygiad sector (25% vs. 12%). I'r gwrthwyneb, yr unig weithgaredd a ddarparwyd yn fwy cyffredin gan ddeiliaid grantiau bach oedd

⁹ Rhoddwyd enghreifftiau i'r ymatebwyr o bob gweithgaredd yn yr arolwg i sicrhau y gallent ateb yn gywir. Gweler yr Atodiad Technegol am y rhestr lawn o enghreifftiau.

asedau neu gyfleusterau cymunedol (32% o'i gymharu â 21% o ddeiliaid grantiau safonol); gweler Ffigur 3.4.

Ffigur 3.4 Pa fathau o weithgarwch neu gymorth a wnaeth y sefydliad eu cyflawni gan ddefnyddio'r grant: grantiau safonol o gymharu â grantiau llai



A2. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau canlynol o weithgarwch neu gymorth a wnaeth eich sefydliad eu cyflawni drwy ddefnyddio'r grant a dderbyniwyd? Mae saethau'n dynodi gwahaniaethau arwyddocaol rhwng deiliaid grantiau bach/safonol. Sylfaen: Pob deiliad grant. Bach (4,790) a Safonol (456)

Ar draws y portffolios, roedd y patrwm yn debyg i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol ynghylch defnyddio arian y grant (e.e. i gyrraedd mwy o fuddiolwyr), gyda nifer o achosion o ddeiliaid grantiau portffolio'r DU yn llai tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am fath o weithgaredd/cymorth. Er enghraifft, dywedodd tri o bob deg (31%) o ddeiliaid grantiau portffolio'r DU eu bod wedi defnyddio'r grant i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles, sy'n llawer llai na'r cyfartaledd ar draws pob portffolio (46%).

Ar gyfer y mathau mwyaf cyffredin o weithgarwch neu gymorth a ddarparwyd gan ddefnyddio'r grant (sef cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol, iechyd a lles neu ymgysylltu â'r gymuned), ychydig iawn o amrywiad rhanbarthol trawiadol a gafwyd. Yr eithriadau oedd bod deiliaid grantiau yn Llundain yn fwy tebygol na chyfartaledd yr holl ddeiliaid grantiau ar draws rhanbarthau eraill o fod wedi darparu gweithgareddau / cymorth ymgysylltu â'r gymuned (49% vs. cyfartaledd o 39%). Roedd deiliaid grantiau yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn llawer llai tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned (34%).


Roedd deiliaid grantiau yn Llundain yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi ceisio gwella asedau / cyfleusterau / mannau cymunedol (13%), gan adlewyrchu'r canfyddiadau am Lundain a adroddwyd mewn perthynas â Ffigur 3.2. Yn yr un modd, fel y gwelwyd mewn perthynas â Ffigur 3.2, roedd deiliaid grantiau yn y De Orllewin (41%) a Gogledd Iwerddon (39%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi defnyddio eu grant ar gyfer gwella asedau / cyfleusterau / mannau cymunedol.

Plant a phobl ifanc oedd y grŵp a dargedwyd amlaf gan ddeiliaid grantiau

Gofynnwyd i ddeiliaid grantiau a oeddent yn targedu'r cymorth neu'r gweithgareddau a gynigiwyd ganddynt o ganlyniad i arian y grant. Y grŵp mwyaf cyffredin i fod yn darged ar gyfer cymorth oedd plant a phobl ifanc nad oedd mewn perygl,¹⁰ yn cael eu targedu gan tua thraean (34%) o ddeiliaid grantiau. Dilynwyd hyn gan dri o bob deg o ddeiliaid grantiau sy'n cefnogi pobl a oedd o dan anfantais addysgol neu economaidd (30%) a phobl ag anabledd hirdymor (30%).

Dywedodd chwarter (24%) o ddeiliaid grantiau fod eu cefnogaeth yn gyffredinol, ac nad oedd wedi'i thargedu at un grŵp penodol. Mae Ffigur 3.5 yn dangos y grwpiau a dargedwyd gan ddeiliaid grantiau gan ddefnyddio eu grantiau.

Ffigur 3.5 Pa grwpiau o bobl yr oedd deiliaid grantiau yn eu targedu ar gyfer cymorth / gweithgareddau



A3. Pa rai, os o gwbl, o'r grwpiau canlynol o bobl a dargedwyd gennych gyda'r cymorth neu'r gweithgareddau a ddarparwyd gan ddefnyddio'r grant y gwnaethoch chi ei dderbyn? Codau eraill < 2% heb eu siartio. Mae ~ yn nodi cod newydd a grëwyd o ôl-godio ymateb testun agored. Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)


Roedd deiliaid grantiau safonol yn llawer mwy tebygol o fod wedi targedu cymorth/gweithgareddau ar gyfer pob un o'r grwpiau, o'i gymharu â deiliaid grantiau bach. Roedd grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed yn aml ddwy neu dair gwaith yn fwy tebygol o gael eu cefnogi gan ddeiliaid grantiau safonol o gymharu â deiliaid grantiau bach.

Er enghraifft, roedd deiliaid grantiau safonol deirgwaith yn fwy tebygol na deiliaid grantiau bach o dargedu cymorth tuag at bobl ddigartref (12% vs. 4%), a thua dwywaith yn fwy tebygol o dargedu cymorth/gweithgareddau tuag at bobl a oedd yn ddioddefwyr, goroeswyr neu bobl sydd wedi'u gormesu (17% safonol vs. 7% bach) gydag anghenion cymhleth lluosog (28% safonol vs. 15% bach)

¹⁰ Disgrifiwyd pobl ifanc mewn perygl fel y rhai mewn gofal, trais difrifol ymysg pobl ifanc a NEETs

a phobl ddi-waith (27% safonol vs. 14% bach). Mae Ffigur 3.6 yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng deiliaid grantiau bach a safonol o ran at bwy roedd cymorth wedi'i dargedu.

Ffigur 3.6 Pa grwpiau o bobl mae deiliaid grantiau wedi'u targedu ar gyfer cymorth / gweithgareddau: grantiau safonol o gymharu â grantiau llai




A3. Pa rai, os o gwbl, o'r grwpiau canlynol o bobl a dargedwyd gennych gyda'r cymorth neu'r gweithgareddau a ddarparwyd gan ddefnyddio'r grant y gwnaethoch chi ei dderbyn? Codau eraill <3% heb eu siartio. Mae saeth werdd yn rhoi arwyddocâd ystadegol rhwng grantiau safonol a grantiau bach. Sylfaen: Pob deiliad grant. Grant maint safonol (456) Grant maint bach (4,790)

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol nodedig rhwng portffolios a thargedu grwpiau o gymorth neu weithgareddau.

Darparodd dau o bob pump (40%) o ddeiliaid grantiau gwledig gymorth cyffredinol, o'i gymharu ag un o bob pump o ddeiliaid grantiau trefol (19%). O ganlyniad, roedd deiliaid grantiau trefol yn fwy tebygol o dargedu cymorth a gweithgareddau i bron pob grŵp. Fel y dangosir yn Ffigur 3.7, roedd deiliaid grantiau trefol chwe gwaith yn fwy tebygol na deiliaid grantiau gwledig o dargedu cymorth i gymunedau sy'n profi anghydraddoldeb hiliol, ac i fudwyr (12% ymhlith deiliaid grantiau trefol, vs. 2% ymhlith rhai gwledig). Gellid egluro hyn drwy gyfansoddiad demograffig poblogaethau trefol.

Ffigur 3.7 Pa grwpiau o bobl roedd deiliaid grantiau wedi'u targedu ar gyfer cymorth / gweithgareddau: deiliaid grantiau trefol o'u cymharu â deiliaid grantiau gwledig



A3. Pa rai, os o gwbl, o'r grwpiau canlynol o bobl a dargedwyd gennych gyda'r cymorth neu'r gweithgareddau a ddarparwyd gan ddefnyddio'r grant y gwnaethoch chi ei dderbyn? Codau eraill <3% heb eu siartio. Mae saeth werdd yn rhoi arwyddocâd ystadegol rhwng grantiau trefol a grantiau gwledig. Sylfaen: Pob deiliad grant. Deiliaid grantiau trefol (3850) a deiliaid grantiau gwledig (1352)


Nid oedd fawr o wahaniaeth arwyddocaol rhwng rhanbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig o ran y grwpiau a dargedwyd ar gyfer cymorth, ac roedd y canfyddiadau trefol / gwledig yn Ffigur 3.7 yn adlewyrchu patrymau a ganfuwyd. Er enghraifft, roedd deiliaid grantiau yn Llundain yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o gynnig cymorth i nifer o'r grwpiau, y gellid eu hesbonio gan ddwysedd ac amrywiaeth y boblogaeth, ac mae'n cyd-fynd â'r canfyddiad bod deiliaid grantiau trefol yn fwy tebygol o gynnig cymorth wedi'i dargedu na rhai gwledig. Er enghraifft, roedd deiliaid grantiau yn Llundain bum gwaith yn fwy tebygol o dargedu cymorth tuag at fudwyr nag yn y De Orllewin (19% vs. 4%), o bosibl oherwydd nifer y mudwyr yn Llundain o'i gymharu â'r De Orllewin.

Roedd yn gyffredin i ddeiliaid grantiau a oedd yn darparu asedau cymunedol, cyfleusterau neu fannau a lleoedd gwell adrodd nad oeddent yn targedu cymorth/gweithgareddau ac yn hytrach yn cynnig hyn yn gyffredinol (o'i gymharu â deiliaid grantiau a oedd yn cynnig mathau eraill o weithgarwch a chymorth). Dywedodd dau o bob pump (41%) o ddeiliaid grantiau a gyflwynodd asedau cymunedol hyn, o'i gymharu â chyfartaledd o 24%.

Mae'r grwpiau mae deiliaid grantiau yn targedu cymorth tuag atynt yn aml yn gysylltiedig â'r math o weithgareddau a gynigiwyd ganddynt yn y ffyrdd y byddai rhywun yn eu disgwyl. Er enghraifft, roedd 58% o ddeiliaid grantiau a oedd yn targedu cymorth tuag at bobl a oedd o dan anfantais addysgol neu economaidd yn cynnig gweithgareddau cyflogaeth a menter, ac roedd 49% yn cynnig cymorth materol a lles. Mewn patrwm tebyg, roedd deiliaid grantiau a oedd yn targedu cymorth i bobl ddigartref bedair gwaith yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o adrodd eu bod yn darparu gweithgareddau cymorth argyfwng (22% vs. cyfartaledd o 5%).

Gofynnwyd i ddeiliaid grantiau a ddywedodd eu bod yn targedu cymunedau sy'n profi anghydraddoldeb hiliol gyda chymorth neu weithgareddau gan ddefnyddio'r grant a gawsant, pa grwpiau o bobl yr oeddent yn eu cefnogi. Fel y dangosir yn Ffigur 3.8, yn fwyaf cyffredin, cefnogodd deiliaid grantiau bobl o gefndir ethnig Cymysg/Lluosog (74%), Pobl Dduon / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig (71%) a phobl Asiaidd / Asiaidd Prydeinig (65%).¹¹

Ffigur 3.8 Grwpiau o bobl a gefnogwyd ymhlith y deiliaid grant hynny oedd yn targedu cymunedau sy'n profi anghydraddoldeb hiliol




A3A. A allwch chi nodi pa rai o'r grwpiau canlynol o bobl y gwnaethoch chi eu cefnogi? Sylfaen: Deiliaid grantiau a wnaeth dargeddu cymunedau sy'n profi anghydraddoldeb hiliol gyda chymorth neu weithgareddau gan ddefnyddio'r grant a gawsant (491)

Cymorth wyneb yn wyneb yw'r dull darparu mwyaf cyffredin o bell ffordd ar gyfer deiliaid grantiau

Y dull cymorth a gynigiwyd amlaf oedd wyneb yn wyneb (86%) a rhoddodd ychydig dros chwarter (27%) eu cefnogaeth fel hyn yn unig. Dilynwyd hyn gan gyngor neu ddeunyddiau ysgrifenedig (gan gynnwys gwefannau) (39%), cymorth dros y ffôn (38%) a'r cyfryngau cymdeithasol (36%); gweler Ffigur 3.9. Roedd traean (33%) yn cynnig cymorth drwy negeseuon, tra bod chwarter (25%) wedi gwneud hynny drwy alwadau fideo ar-lein. Felly, roedd llawer o ddeiliaid grantiau yn cynnig cymorth mewn sawl ffordd.

¹¹ Gellid bod wedi camddechongli'r codau ymateb a gynigiwyd i ymatebwyr, gellid bod wedi deall bod y gyfran uchel o ddeiliaid grantiau yn datgan eu bod yn gweithio'n benodol gyda phobl o 'gefndir cymysg / lluosog' yn gweithio gyda phobl oedd yn croesi cymysgedd o wahanol gefndiroedd ethnig (gan gynnwys e. e. pobl Asiaidd neu bobl Arabaidd), yn hytrach na phobl hil gymysg yn benodol. Felly, dylid ystyried y canlyniadau hyn yn ofalus.

Ffigur 3.9 Y gwahanol ffyrdd y cynigiwyd y gweithgareddau neu gymorth




A7. Gan feddwl nawr am y gweithgareddau neu'r cymorth a ddarparwyd gan eich sefydliad o ganlyniad i'r grant, ym mha rai o'r ffyrdd canlynol y cynigiwyd y gweithgareddau neu'r cymorth?

Sylfaen: Pob deiliad grant ac eithrio'r rhai a oedd ond yn gwella lleoedd a lleoedd yn eu cymuned gan ddefnyddio'r grant a gawsant (4,821) (ni ddangosir codau o dan 5%)

Fel y dangosir yn Ffigur 3.10, ar gyfer y rhan fwyaf o ddulliau darparu, mae patrwm clir lle yr hiraf yr oedd y grant yn para, y mwyaf tebygol oedd deiliad y grant i ddarparu cymorth drwy bob dull gwahanol (yr eithriad yw galwadau fideo a negeseuon).

Ffigur 3.10 Y gwahanol ffyrdd y cynigiwyd y gweithgareddau neu'r cymorth: cymhariaeth hyd y grant



A7. Gan feddwl nawr am y gweithgareddau neu'r cymorth a ddarparwyd gan eich sefydliad o ganlyniad i'r grant, ym mha rai o'r ffyrdd canlynol y cynigiwyd y gweithgareddau neu'r cymorth?

Pob deiliad grant ac eithrio'r rhai a oedd ond yn gwella lleoedd a gofod yn eu cymuned gan ddefnyddio'r grant a gawsant (Pob deiliad: 4,821; dros 5 mlynedd: 80; 2-5 mlynedd: 266; 6 mis – 2 flynedd: 4201; <6 mis: 274

Roedd gwahaniaethau pellach yn y ffordd y cafodd y grant ei ddarparu fel a ganlyn:

- Roedd grantiau a oedd yn anelu at ddarparu ymgysylltiad â'r gymuned yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio pob un o'r dulliau a drafodwyd, gyda'r gwahaniaeth wedi'i nodi'n arbennig ar gyfer gwybodaeth ysgrifenedig (48%) a'r cyfryngau cymdeithasol (47%).
- Roedd grantiau mewn lleoliadau trefol yn fwy tebygol na'r rhai mewn rhai gwledig o ddarparu gan ddefnyddio galwadau ffôn (42% vs. 25%), negeseua (35% vs. 26%) a galwadau / cyfarfodydd fideo (28% vs. 15%). Nid oedd llawer o wahaniaeth rhanbarthol ym modd y cymorth. Un canfyddiad nodedig yw bod deiliaid grantiau yn y Gogledd Orllewin yn fwy tebygol na'r cyfartaledd ar draws holl ranbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig i adrodd am ddarparu cymorth wyneb yn wyneb, galwadau ffôn, negeseuon a galwadau fideo.
- Defnyddiodd grantiau portffolio'r DU lai o wahanol ddulliau o ddarparu cymorth ac roeddent yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio wyneb yn wyneb (71%), negeseua (26%) neu dros y ffôn (25%). Wrth archwilio'r mathau o weithgarwch a gefnogir gan grantiau portffolio'r DU, maen nhw'n fwy tebygol o gefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd (21% vs. 16% ar gyfer cyfanswm y sampl) ond maent yn llai tebygol o weithio mewn meysydd lle mae angen cymorth dwys, megis cymorth argyfwng (2% vs. 7% ar gyfer cyfanswm y sampl). Gall hyn helpu i esbonio'r gwahaniaeth ym mhroffil modd y DU o'i gymharu â phortffolios eraill.¹²

Mae'r astudiaeth achos gyda Involve Northwest yn rhoi enghreifftiau o sut y gellir darparu grantiau mewn amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi buddiolwyr, yn ogystal â hyd yr amser y gellir ymgysylltu â buddiolwyr.

Astudiaeth achos: Involve Northwest

Mae Involve Northwest yn wasanaeth cyngori ar fudd-daliadau yng Nghilgwri, a ddefnyddiodd eu grant o'r gronfa i ddatblygu eu tîm cyngor ar fudd-daliadau. Parhaodd eu grant am 3 blynedd. Roeddent yn cynnig cyngor i'w buddiolwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys mewn apwyntiadau un-i-un wyneb yn wyneb, yn ogystal â'r apwyntiadau hyn dros y ffôn. Yn y sesiynau hyn, byddai buddiolwyr yn dod i'r swyddfa gyda'u dogfennau budd-daliadau a byddai'r ymgynghorwyr yn gweithio drwy'r dogfennau gyda'r cleientiaid i'w helpu i'w llenwi'n gywir, cyn eu cyflwyno i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y cymorth lles yn aml yn arwain at ffurfio perthynas fwy hirsefydlog rhwng y buddiolwr a'r sefydliad, a byddent yn dod yn ôl i Involve Northwest gydag ymholiadau eraill, sy'n golygu nad oedd ymgysylltu fel arfer yn un o fewn y cyfnod grant o 3 blynedd, ac yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

¹² Mae rhagor o fanylion am sut mae grantiau portffolio'r DU yn wahanol i'r portffolios eraill yn yr adran 'Nodau ac amcanion ymchwil' yn y Cyflwyniad.


"Maen nhw'n gwybod bod ganddyn nhw bobl [ni] y gallan nhw ddibynnu arnyn nhw, mae pobl fregus yn gallu bod yn eithaf drwgdybus o bobl, felly rydyn ni wedi adeiladu cyfeillgarwch cadarn gyda nhw, ac maen nhw'n dal i ddod yn ôl am help gyda gwahanol faterion." Martin, Ymgyngorydd lles

Mae dwy ran o dair o ddeiliaid grantiau yn darparu cymorth un-i-un

Gofynnwyd i ddeiliaid grantiau sy'n darparu gweithgareddau, yn hytrach na gwella manau a lleoedd, am fformat y cymorth a ddarparwyd ganddynt, o ran sesiynau grŵp neu un i un. Roeddent yr un mor debygol o ddarparu gweithgareddau neu gymorth un i un (67%), cymorth i grwpiau mawr o 10 neu fwy (67%), neu i grwpiau llai (65%). Roedd tua thri o bob deg (33%) yn rhoi cymorth i grwpiau teuluol.

Roedd gweithgareddau a oedd yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb yn fwy tebygol o gyflwyno hyn i grwpiau (84%) nag un i un (60%). Roedd cymorth grŵp hefyd yn fwy cyffredin drwy alwad fideo, o'i gymharu â galwadau fideo un i un (84% vs. 60%). Fodd bynnag, roedd y rhai a gynigiodd gymorth dros y ffôn i fuddiolwyr yn fwy tebygol o ddarparu cymorth un-i-un (88%) nag yr oeddent i grwpiau (24%), roedd hefyd yn fwy cyffredin i gymorth yn seiliedig ar negeseuon gael ei ddarparu un i un (71%) yn hytrach na drwy grŵp (61%). Mae Ffigur 3.11 yn amlinellu'r mathau penodol o ddeiliaid grantiau cyswllt (a'r gwahanol fathau o waith grŵp).

Ffigur 3.11 Y gwahanol fathau o gyswllt y cynigiwyd y gweithgareddau neu'r cymorth ynddynt, yn ôl dull cyswllt




A8-Crynodeb. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau canlynol o gyswllt a wnaethoch chi eu cynnig i fuddiolwyr? Sylfaen: Os oedd deiliaid grantiau yn dweud eu bod yn cynnig eu gweithgarwch drwy ddull penodol, wyneb yn wyneb (4038), dros y ffôn (1789), drwy negeseua (1576), drwy alwad fideo (1183), drwy gyngor ysgrifenedig (1829).

Gwelodd grantiau oedd yn cynnwys asedau a mannau fod buddiolwyr yn ymgysylltu am fwy o amser na mathau eraill o grantiau

Roedd saith o bob deg (69%) o grantiau a oedd yn cynnwys darparu asedau, cyfleusterau a mannau cymunedol yn cynnwys ymgysylltu parhaus am fwy na blwyddyn gyda buddiolwyr, a oedd yn fwy na mathau eraill o weithgareddau. Cymorth argyfwng (24%), cyflogaeth a menter (30%), cymorth materol a lles (30%) a digidol (30%) oedd y gweithgareddau lleiaf tebygol i ymgysylltu â buddiolwyr am fwy na blwyddyn. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y mathau hyn o grantiau yn darparu cymorth dwys ar gyfer angen penodol, megis ar gyfer argyfwng aciwt, cymorth i ddod o hyd i waith neu i wella sgiliau digidol.

Ffigur 3.12 Hyd ymgysylltiad buddiolwyr yn seiliedig ar y math o weithgaredd a ddarperir



A9. Am ba hyd mae buddiolwr nodweddiadol fel arfer yn ymgysylltu'n barhaus â'r gweithgareddau mae eich sefydliad yn eu cyflawni gyda'r grant hwn?

Sylfeini: Asedau cymunedol (1,609), Chwaraeon a hamdden (1,453), Yr Amgylchedd (807), Cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol (2,970), Cymorth sector (691), Ymgysylltu â'r gymuned (1,997), Celfyddydau a threftadaeth (1,259), Iechyd a lles (2,373), Addysg a dysgu (1,890), Gwybodaeth a chyngor (1,176), Cyflogaeth a menter (674), Cymorth materol a lles (612), Digidol (688), Cymorth argyfwng (353).

Fel y dangosir yn Ffigur 3.12, grantiau a oedd yn darparu asedau cymunedol, cyfleusterau neu fannau a lleoedd gwell oedd y rhai mwyaf tebygol o ymgysylltu â buddiolwyr am dros flwyddyn (69%). Mae'r astudiaeth achos a gynhaliwyd gyda North Edinburgh Arts yn awgrymu pam y gallai hyn fod yn wir, oherwydd unwaith mae fan neu le yn cael ei wella, gall buddiolwyr ei ddefnyddio yn y tymor hir.

Astudiaeth achos: North Edinburgh Arts

Nod y grant oedd gwella gofod yr ardd, i greu rhywle y gallai'r gymuned ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim fel man ar gyfer gorffwys a seibiant. Diffinnir y math hwn o gymorth gan yr ymchwil fel 'ased cymunedol, cyfleusterau neu wella manau a lleoedd'. Mae'r gatiu i'r ardd bob amser ar agor ac anogir pob person lleol i dreulio amser yno pryd bynnag y bydd angen. I bobl leol heb erddi, mae'r gofod wedi cael effaith enfawr ar eu bywyd o ran eu lles corfforol a meddyliol. Roedd un o'r buddiolwyr yn teimlo'n gysylltiedig iawn â'r ardd ac wedi bod yn ymweld am 15 mlynedd gyda'i merch ddall.

"Mae wedi bod yn lle diogel iddi [ei merch] dyfu i fyny; mae hi'n gwybod ei ffordd o gwmpas drwy deimlo, mae wedi eu gau i ffwrdd o'r ffyrdd, does dim baw ci na nodwyddau nac unrhyw beth. Mae pobl yn ei hadnabod hi hefyd, felly rwy'n gwybod bod pobl bob amser yn edrych allan amdani. Dwi wedi gweld y newid ynddi hi hefyd... mae ei hyder wedi tyfu'n aruthrol; dydy hi ddim fy angen i gymaint mwyach."
Budd-ddeiliad

Roedd deiliaid grantiau gwledig a ddefnyddiodd eu grantiau i wella asedau, cyfleusterau a/neu leoedd cymunedol yn fwy tebygol na deiliaid grantiau trefol o adrodd am ymgysylltu â buddiolwyr sy'n para mwy na blwyddyn (74% vs. 64%).


Gweithiodd ychydig dros hanner y deiliaid grantiau gyda sefydliadau eraill

Yn gyffredinol, roedd ychydig dros hanner y deiliaid grantiau (52%) yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu gweithgareddau (ac roedd 2% yn ansicr).

Roedd tuedd deiliaid grantiau i weithio gydag eraill yn wahanol yn dibynnu ar y math o grant (Ffigur 3.13) fel a ganlyn:

- Roedd grantiau safonol yn fwy tebygol o weithio gydag eraill o gymharu â grantiau syml.
- Roedd grantiau trefol yn fwy tebygol na grantiau mewn ardaloedd gwledig. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng rhanbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig.
- Roedd sefydliadau mawr yn fwy tebygol o weithio gyda phartneriaid na sefydliadau meicro, bach a chanolig eu maint.
- Roedd grantiau a oedd yn para mwy na chwe mis yn fwy tebygol o weithio gydag eraill na grantiau tymor byr o chwe mis neu lai.

Ffigur 3.13 Cyfran y deiliaid grantiau sy'n gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu gweithgareddau a ariennir drwy grant: cymharu deiliaid grantiau / gweithgareddau



A19. A wnaethoch chi weithio gyda sefydliad(au) arall/eraill i gyflawni'r gweithgareddau a ariannwyd gan eich grant? Mae saethau'n dangos arwyddocâd ystadegol o gyfanswm cyfartaledd y DU.

Sylfeini: Pob deiliad grant (5,246). 6 mis a llai (321), 6 mis i 1 flwyddyn (3,423). Gwledig (1,352), Trefol (3,850). Sefydliad meicro (1,308), Sefydliad bach (2,111), Sefydliad canolig (1314), Sefydliad mawr (318). Bach (4,790), Safonol (456).

Fe wnaeth dadansoddiad atchweliad ein helpu i bennu'r newidynnau sy'n cyfrannu fwyaf at weithio gyda sefydliadau eraill, nad yw bob amser yn amlwg o ddadansoddiad amrywiol. Dangosodd y dadansoddiad hwn mai'r sbardun pwysicaf o weithio gyda sefydliadau eraill oedd y ddarpariaeth "wyneb yn wyneb". Dilynydd hyn yn agos gan "drwy gyngor neu ddeunyddiau ysgrifenedig, gan gynnwys ar wefannau". Maint y grant yw'r trydydd sbardun pwysicaf, (gyda grantiau safonol yn fwy tebygol o weithio gyda sefydliadau eraill na'r rhai sydd â grantiau bach).¹³


Fel mae Ffigur 3.14 yn ei ddangos, ymhlith sefydliadau oedd yn gweithio gydag eraill i ddarparu gweithgareddau, y partneriaid mwyaf cyffredin oedd grwpiau cymunedol (61% o'r rhai a oedd wedi gweithio gydag eraill; neu 31% o'r holl ddeiliaid grantiau), ac yna elusennau cofrestredig (53%; neu 28% o'r cyfan). Roedd llai na phedwar o bob deg mewn partneriaeth ag awdurdod lleol (39%; 21% o'r cyfan) neu wasanaeth cyhoeddus arall (36%; neu 19% o'r cyfan). Roedd chwarter (26%; neu 14% o'r cyfan) mewn partneriaeth â chwmnïau preifat, tra bod tua un o bob chwech (16%; neu 8% o'r cyfan) mewn partneriaeth â sefydliadau ffydd. Dim ond lleiafrif bach (2%) oedd mewn partneriaeth gyda gweithwyr llawrydd neu hwyluswyr annibynnol.

¹³ Mae metrig Johnson yn chwalu cyfraniad unigryw pob rhagfynegydd i'r model gan ystyried maint ei effaith a'i gydberthynas gyffredinol â'r Newidyn Dibynnol (yr hyn yr ydym yn ei ragweld, wedi'i dalfyrnu fel DV, yma'n gweithio gyda sefydliadau eraill). Gellir ei ddehongli fel ffordd o gredydu pob rhagfynegydd gyda chyfraniad at ragfynegi'r DV (gan grynhoi i 100%), gan ystyried y cydberthyniadau rhwng y rhagfynegyddion yn ogystal â'u perthynas â'r DV. Po uchaf yw sgôr % Johnson, po uchaf yw cyfraniad unigryw'r rhagfynegydd hwnnw i'r model. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, sgoriodd wyneb yn wyneb 40% ar fetrig Johnson, ac yna 'drwy gyngor ysgrifenedig' ar 38% ac yna maint y grant ar 22%.

Astudiaeth achos: Asthma and Allergy Foundation

Er mwyn cyflwyno eu gweithdai yn addysgu'r rhai sy'n dioddef o asthma am y clefyd, bu'n rhaid iddynt gydweithio gyda: yr awdurdod lleol i gael caniatâd i gyflwyno'r gweithdai ar eu safleoedd; prifysgolion i recriwtio gwirfoddolwyr; a'r Ganolfan Waith leol er mwyn rhoi profiad gwaith i bobl ifanc.

Ffigur 3.14 Mathau o sefydliad partner



A20. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau canlynol o sefydliad(au) y gwnaethoch chi weithio gyda nhw i gyflawni'r gweithgareddau? Sylfeini: Os fu deiliad y grant yn gweithio gyda sefydliadau(au) arall/eraill i gyflawni'r gweithgareddau a ariannwyd gan y grant (2,739)

Roedd y defnydd o sefydliadau partner yn wahanol yn ôl portffolio fel a ganlyn:

- Roedd deiliaid grantiau ym mhorthfolios Cymru a'r Alban yn fwy tebygol o weithio gydag awdurdodau lleol (44% a 48% yn y drefn honno) na grantiau ym mhorthfolio Gogledd Iwerddon (31%).
- Roedd y rhai ym mhorthfolio'r Alban hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o greu partneriaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill (42%).
- Y rhai ym mhorthfolio Lloegr oedd fwyaf tebygol o weithio gyda sefydliadau ffydd (18%), gyda deiliaid grantiau yn yr Alban (9%) a phorthfolios Gogledd Iwerddon (10%) y lleiaf tebygol o wneud hynny.

O'r rhai a fu'n gweithio gyda sefydliadau eraill, roedd deiliaid grantiau yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn fwy tebygol na'r cyfartaledd ar draws yr holl ddeiliaid grantiau i greu partneriaeth gyda sefydliadau ffydd (24% vs. 16%), fodd bynnag yn llai tebygol na'r cyfartaledd i greu partneriaeth gydag awdurdodau lleol (31% o'i gymharu. 39%).

4 Pa gyrhaeddiad mae'r grant wedi'i gael?


Mae'r bennod hon yn adrodd ar nifer y buddiolwyr a gyrhaeddwyd drwy eu gweithgareddau, a nifer y gwirfoddolwyr a'r staff a ddefnyddiwyd i ddarparu'r grantiau.

Cefnogwyd dros 5 miliwn o fuddiolwyr unigryw yn uniongyrchol gan grantiau

Cyfartaledd nifer y buddiolwyr unigryw a gefnogwyd yn uniongyrchol fesul grant oedd 455 (y canolrif oedd 78). Gweler Ffigur 4.1 am y dadansoddiad.

Mae'r canlyniadau hyn, pan fyddant yn cael eu hallosod i bob deiliad grant, yn dangos, ar draws yr holl ddeiliaid grantiau a ariennir o fewn blwyddyn nodweddiadol, **bod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi cyfanswm o tua 5.2 miliwn o fuddiolwyr unigryw y flwyddyn drwy eu¹⁴ deiliaid grantiau.**¹⁵ Mae 2.1 miliwn o fuddiolwyr wedi elwa ar grantiau safonol tra bod 3.1 miliwn wedi elwa ar grantiau bach.

Ffigur 4.1 Nifer y buddiolwyr unigryw a gefnogir yn uniongyrchol gan y grant a dderbyniwyd



A5. At ei gilydd, faint o fuddiolwyr unigryw sydd wedi cael cymorth uniongyrchol gan eich sefydliad o ganlyniad i'r grant a dderbyniwyd?

Sylfaen: A5. Pob deiliad grant ac eithrio'r rhai a oedd ond yn gwella lleoedd a gofod yn eu cymuned gan ddefnyddio'r grant a gawsant (4,821)

¹⁴ Mae'r mesur hwn yn dal buddiolwyr sy'n unigryw i ddeiliad y grant. Fodd bynnag, gall nifer o grantiau sy'n cynnwys gwahanol ddeiliaid grantiau effeithio ar fuddiolwr, felly efallai y bydd rhywfaint o gyfrif dwbl.


¹⁵ Yn ystadegol, gallwn fod 95% yn hyderus bod y gwir ffigur rhwng 4.2 miliwn a 6.2 miliwn. Cyfrifwyd y rhif gan ddefnyddio data wedi'i hunan-gofnodi gan ddeiliaid grantiau.

Roedd dros 1.8m o bobl y mis yn defnyddio asedau a chyfleusterau a gefnogwyd gan grantiau

Ar gyfartaledd (gan ddefnyddio'r cyfartaledd cymedrig), dywedodd pob deiliad grant fod 325 o bobl yn defnyddio asedau neu gyfleusterau a ariannwyd mewn mis arferol (y tu allan i gyfnod y pandemig). Nifer canolrif y buddiolwyr oedd 100. Mae Ffigur 4.2 yn dangos y dadansoddiad.

Cafodd data'r arolwg ei bwysoli a'i drosi'n ddata gros i adlewyrchu'r nifer cymedrig o grantiau a ariannwyd mewn blwyddyn, yn ôl portffolio a chynnyrch ariannu, er mwyn caniatáu i ganfyddiadau gael eu hallosod i bob deiliad grant. **Pan fydd yn cael ei allosod i bob deiliad grant, defnyddiodd tua 1.8 miliwn o fuddiolwyr yr asedau a'r cyfleusterau hyn mewn mis nodweddiadol.**¹⁶

Ffigur 4.2 Nifer cyfartalog y bobl sy'n defnyddio asedau neu gyfleusterau a ariennir gan grant mewn mis nodweddiadol (y tu allan i gyfnod y pandemig)



A4. Ar gyfartaledd faint o bobl oedd yn defnyddio'r asedau neu'r cyfleusterau hyn mewn mis nodweddiadol (y tu allan i gyfnod y pandemig)

Sylfaen: Deiliaid grantiau a dargedodd asedau/cyfleusterau/mannau cymunedol ac sy'n gosod gweithgareddau gyda'r grant a/neu a helpodd i wella lleoedd a lleoedd yn eu cymuned (2,406).

Cyrhaeddodd y rhai a oedd yn derbyn grantiau safonol 425 o fuddiolwyr ar gyfartaledd, o'i gymharu â 315 ymhlith y rhai a oedd yn derbyn grantiau bach. Ymhlith grantiau bach, mae gwerth y grant yn cael effaith ar nifer y buddiolwyr a gyrhaeddwyd, gyda grantiau o dan £5,000 ar gyfartaledd 265 o fuddiolwyr tra bod y rhai a dderbyniodd rhwng £5,000 - £10,000 wedi cyrraedd 330 o bobl ar gyfartaledd. Roedd gan ddeiliaid grantiau mewn ardaloedd trefol gyrhaeddiad mwy, gyda chymedr o 355 o fuddiolwyr fesul grant, o'i gymharu â 285 mewn ardaloedd gwledig. Adroddodd deiliaid grantiau portffolio'r Alban fod 380 o fuddiolwyr wedi defnyddio eu hasedau neu gyfleusterau a ariannwyd gan

Yn ystadegol, gallwn fod 95% yn hyderus bod y gwir ffigur rhwng 1.6 miliwn a 2 filiwn. Cyfrifwyd y rhif gan ddefnyddio data wedi'i hunan-gofnodi gan ddeiliaid grantiau.


grant mewn mis arferol, o'i gymharu â 345 gan bortffolio Lloegr, 295 portffolio'r DU, 235 portffolio Cymru a 190 o ddeiliaid grantiau portffolio Gogledd Iwerddon.

Gweithiodd y rhan fwyaf o ddeiliaid grantiau gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'u grant

Gweithiodd pedwar o bob pum deiliad grant (82%) gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'u grant.

Fel mae Ffigur 4.3 yn ei ddangos, roedd sefydliadau meicro a bach yn fwy tebygol o weithio gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'u grant (86%, 87%); roedd sefydliadau canolig, mawr a mawr iawn eu maint yn llai tebygol o (78%, 58%, 57%).¹⁷ Roedd sefydliadau a ddefnyddiodd eu grant ar gyfer gweithgareddau yn hytrach nag asedau yn fwy tebygol o fod wedi gweithio gyda gwirfoddolwyr hefyd (82% o weithgarwch yn unig, 83% yn gymysgedd o weithgareddau ac asedau, vs. 67% asedau yn unig).

Ffigur 4.3 Cyfran y deiliaid grant a ddefnyddiodd wirfoddolwyr fel rhan o'u grant



A12. A oedd eich sefydliad yn gweithio gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'ch grant?
Mae saethau'n dynodi gwahaniaethau arwyddocaol gan bob deiliad grant.
Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Roedd y rhan fwyaf o'r deiliaid grantiau a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos ac a gyflwynodd weithgareddau a digwyddiadau gyda'r grantiau yn gweithio gyda gwirfoddolwyr. Roedd gwirfoddolwyr

¹⁷ Mae'r diffiniadau o feintiau sefydliad fel a ganlyn:

Meicro - llai na £10k mewn incwm,

Bach - £10k- llai na 100k,

Canolig - £100k- llai na £1m

Mawr - £1m- llai na £10m

Mawr iawn - £10m- llai na £100m

Hynod Fawr – Dros £100m

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma <https://blogs.ncvo.org.uk/2019/01/21/small-charities-key-findings-from-our-data/>

yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o dasgau gyda'r gwahanol sefydliadau hyn, ac roedd rolau fel arfer yn cynnwys helpu ar ddiwrnod digwyddiadau neu weithgareddau.


Astudiaeth achos: Cobhair Barraigh

Elusen fechan yw Cobhair Barraigh sy'n darparu canolfan ddydd ac yn darparu prydau bwyd i'r henoed ar ynys Barra yn yr Alban. Ochr yn ochr â dau aelod o staff, mae o leiaf un gwirfoddolwr yn mynychu pob sesiwn ddydd. Mae'r gwirfoddolwr yn helpu gydag unrhyw beth sydd ei angen ar yr henoed tra byddant yn y sesiwn, i gefnogi'r staff cyflogedig. Fe'u hanogir hefyd i hwyluso sgwrs gyda'r mynychwyr a chynorthwyo gyda'r gweithgareddau, fel helpu gyda chwis neu aerobeg cadair freichiau. Roedd un gwirfoddolwr yn teimlo eu bod wedi cael rhywbeth allan o wirfoddoli gyda'r grŵp hefyd:

"Roeddwn i'n arfer edrych ymlaen at fynd, rwy'n mwynhau cwrdd â phobl, ac roedd y bobl yno mor hyfryd, addfwyn a chwrtais". Gwirfoddolwr

Lle'r oedd deiliaid grantiau yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddarparu grant Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, buont yn gweithio gyda 29 ar gyfartaledd (y canolrif oedd 10). Pan fydd yn cael ei allosod i bob deiliad grant, gallwn fod 95% yn hyderus eu bod yn gweithio gyda thua 290,000 o wirfoddolwyr.

Ffigur 4.4 Nifer y gwirfoddolwyr y bu deiliaid grantiau'n gweithio gyda nhw fel rhan o'u grant




A13. Faint o wirfoddolwyr y bu eich sefydliad yn gweithio gyda nhw fel rhan o'ch grant?
Syllfaen: Deiliaid grantiau a fu'n gweithio gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'r grant (4,292)

Po fwyaf yw swm y grant, po fwyaf o wirfoddolwyr yr oedd deiliad grantiau'n tueddu i weithio gyda nhw i ddarparu gweithgareddau a ariannwyd: gweithiodd grantiau o £400-500,000 gyda 106 o wirfoddolwyr ar gyfartaledd, gweithiodd y rhai a oedd yn derbyn £300-400,000 gyda 72, £200-300,000 yn gweithio gyda 46, £100-200,000 yn gweithio gyda 43, £50-100,000 yn gweithio gyda 26, £10-50k yn gweithio gyda 21, £5-10,000 yn gweithio gyda 17, a'r rhai a oedd yn derbyn llai na £5,000 yn gweithio gyda 14 o wirfoddolwyr ar gyfartaledd.

Roedd gan grantiau a oedd yn ariannu cymorth argyfwng nifer arbennig o uchel o wirfoddolwyr (123 cymedrig, canolrif 10)¹⁸, fel y gwnaeth mathau eraill o weithgareddau sy'n fwy llafurddwys, megis gweithgareddau amgylcheddol (35 cymedrig, canolrif 12).

Recriwtiodd ychydig dros draean o'r deiliaid grant (36%) wirfoddolwyr newydd. O'r rhai a wnaeth, ar gyfartaledd, roeddent yn recriwtio 23 o wirfoddolwyr ychwanegol (y canolrif oedd saith). Pan gafodd ei allod i bob deiliad grant, recriwtiwyd tua 80,000 o wirfoddolwyr ychwanegol drwy'r grantiau.

Ffigur 4.5 Cyfran y deiliaid grantiau sy'n defnyddio eu grant i recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol, a faint o wirfoddolwyr ychwanegol a recriwtiwyd



A14. A wnaeth eich sefydliad ddefnyddio eich grant i'ch helpu i recriwtio gwirfoddolwyr newydd? Sylfaen: Deiliaid grantiau a fu'n gweithio gyda gwirfoddolwyr fel rhan o'r grant (4,292)

Roedd grantiau safonol yn fwy tebygol o recriwtio gwirfoddolwyr gan ddefnyddio'r grant o gymharu â grantiau bach (57% vs. 33%).

Roedd deiliaid grantiau portffolio'r DU yn llawer mwy tebygol o adrodd nad oeddent yn defnyddio'r grant i recriwtio gwirfoddolwyr newydd, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob portffolio arall (72% vs. cyfartaledd o 61%).

Roedd grantiau yn Llundain hefyd yn fwy tebygol o fod wedi recriwtio gwirfoddolwyr newydd gyda'r grant, o'i gymharu â holl ranbarthau eraill Lloegr a gwledydd datganoledig (46%). Roedd deiliaid

¹⁸ Mae'r duedd hon yn cael ei llywio gan y Samariaid: deiliad grant sy'n cynnig cymorth argyfwng, a ddywedodd eu bod yn gweithio gyda 18,000 o wirfoddolwyr.

grantiau yn y De Orllewin yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi recriwtio gwirfoddolwyr newydd (31%).

Astudiaeth achos: Towell House

Mae Towell House yn gartref preswyl i bobl oedrannus yn Belfast. I ddathlu 60 mlynedd ers agor y cartref, defnyddiodd y rheolwr gweithgareddau arian grant i drefnu cyfres o ddigwyddiadau i'r trigolion, a oedd hefyd yn agored i'r gymuned leol a theuluoedd y trigolion. Mae Towell House yn enghraifft o sefydliad nad oedd angen defnyddio'r grant i recriwtio gwirfoddolwyr newydd, gan fod ganddynt grŵp cryf o wirfoddolwyr presennol eisoes (aelodau o'r teulu preswylwyr a staff yn y cartref). Byddai'r gwirfoddolwyr hyn yn helpu ar ddiwrnodau digwyddiadau, er enghraifft rhedeg stondinau neu fynd gyda'r preswylwyr.

"Mae teuluoedd trigolion bob amser yn barod i helpu ar y diwrnod, mae gennym grŵp o wirfoddolwyr rheolaidd gyda chysylltiadau â'r cartref" Sarah, rheolwr digwyddiadau

Roedd un o'r gwirfoddolwyr yn eithaf nerfus i ddechrau i helpu, ond canfu fod cymryd rhan yn rheolaidd yn ei helpu i ddod allan o'i chragen, a magu hyder. Dysgodd fwy hefyd am drefnu digwyddiadau.


Roedd gwahaniaethau hefyd yn ôl y math o weithgaredd a ddarparwyd drwy'r grant: o'r rhai a fu'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, roedd y rhai a oedd yn darparu gweithgareddau sy'n ymwneud â chyflogaeth a menter (55%), cymorth a datblygiad sector (54%), gwybodaeth a chyngor (51%), digidol (51%), cymorth argyfwng (51%) i gyd yn fwy tebygol o recriwtio gwirfoddolwyr newydd.

Roedd grantiau portffolio'r DU yn llai tebygol o recriwtio gwirfoddolwyr newydd: Roedd 23% yn cymharu â 36% yn gyffredinol. Gall hyn fod oherwydd bod y rhan fwyaf o grantiau portffolio'r DU yn llai na chwe mis o hyd (81% vs. 8% o gyfanswm y sampl). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod grantiau hirach yn fwy tueddol i recriwtio gwirfoddolwyr newydd. O'r rhai a fu'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, recriwtiodd 18% o grantiau o dan chwe mis o hyd wirfoddolwyr newydd gan godi i 66% ar gyfer grantiau dros bum mlynedd o hyd.

Roedd y rhai oedd yn defnyddio'r grant i ariannu asedau yn unig (yn hytrach na gweithgareddau, neu gymysgedd) hefyd yn llai tebygol o fod wedi recriwtio gwirfoddolwyr newydd.

Roedd yn fwy cyffredin i ddeiliaid grantiau ddefnyddio eu grant i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwirfoddolwyr na defnyddio arian i recriwtio gwirfoddolwyr newydd; defnyddiodd hanner (52%) eu grant i gydlynu gwirfoddolwyr, yn fwyaf aml gwirfoddolwyr newydd a phresennol (34%).

Ffigur 4.6 Cyfran y deiliaid grantiau sy'n defnyddio eu grant i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwirfoddolwyr newydd neu wirfoddolwyr presennol




A15. A ddefnyddiwyd y grant gan eich sefydliad i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwirfoddolwyr newydd neu wirfoddolwyr presennol? Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Roedd grantiau safonol yn fwy tebygol o ddefnyddio eu grant i gydlynu gwirfoddolwyr (67% vs. 50% bach). Roedd y rhai yn Llundain hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio'r grant i wneud hynny (59% vs. cyfartaledd o 52%), yn ogystal â deiliaid grantiau yn y Gogledd Orllewin (56%). Roedd deiliaid grantiau yng Ngogledd Iwerddon yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio eu grant i gydlynu gwirfoddolwyr (46% vs. cyfartaledd o 52%).

Fel mae Ffigur 4.7 yn ei ddangos, deiliaid grantiau sy'n datblygu asedau neu gyfleusterau cymunedol oedd y lleiaf tebygol o ddefnyddio eu grant i gefnogi cydlynu gwirfoddolwyr: 56% nad oeddent wedi, vs. 41% oedd wedi.

Ffigur 4.7 A ddefnyddiwyd grant i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwirfoddolwyr yn ôl gweithgaredd/cymorth



A15. A ddefnyddiwyd y grant gan eich sefydliad i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwirfoddolwyr newydd neu wirfoddolwyr presennol?

Syllfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Defnyddiodd chwarter y grant i gadw neu logi staff


Defnyddiodd chwarter y deiliaid grant (26%) eu grant i gadw neu recriwtio staff.

Roedd hyn yn llawer uwch ymhlith grantiau safonol na grantiau bach (72% vs. 20%) ac ymhlith portffolios Cymru, Lloegr a'r Alban (28%, 28% a 30%) nag ar gyfer portffolios Gogledd Iwerddon neu'r DU (13% ac 16%). Roedd recriwtio staff yn arbennig o gyffredin ymhlith sefydliadau a ddefnyddiodd eu grant ar gyfer gweithgareddau oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth a menter (47%), gwasanaethau gwybodaeth a chyngor (45%), cymorth argyfwng (44%), cymorth materol a lles (39%) a gweithgareddau digidol (39%). Gall grantiau portffolio Gogledd Iwerddon fod yn llai tebygol o logi neu ailhyfforddi staff oherwydd bod grantiau yn y portffolio hwn yn llai tebygol o ddefnyddio'r arian i gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â menter (8% vs. 13% o gyfanswm y sampl) a gwybodaeth a chyngor (17% vs. 23% o gyfanswm y sampl). Mae'r olaf hefyd yn wir am bortffolio'r DU, lle mai dim ond 11% a ddefnyddiodd y grant i ddarparu gwybodaeth a chyngor.

Roedd deiliaid grantiau yn Llundain (35%) a'r Gogledd Ddwyrain (33%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi defnyddio eu grant i gadw neu recriwtio staff (cyfartaledd o 26%). Roedd deiliaid grantiau yn y De Orllewin (22%) a Gogledd Iwerddon (15%) yn llai tebygol na'r cyfartaledd o wneud hyn.

Ar gyfartaledd, roedd deiliaid grantiau yn cadw neu'n recriwtio 1.4 aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) fel rhan o'r grant (y canolrif oedd 1). **Pan oedden nhw'n cael eu hallosod i bob deiliad grant, roeddent yn cadw neu'n recriwtio tua 4,700 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn.**


Ffigur 4.8 Nifer yr aelodau staff cyfwerth ag amser llawn a gafodd eu cadw neu eu recriwtio o ganlyniad i'r grant?



A17. Faint o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gadwyd neu a recriwtiwyd o ganlyniad i'r grant?
Sylfaen: Deiliaid grantiau a ddefnyddiodd yr arian grant i gadw neu recriwtio aelod o staff (1,387)

Defnyddiodd lleiafrif sylweddol (37%) y grant i gynnig hyfforddiant i'w staff neu wirfoddolwyr. O'r 37% hwn, roedd 6% yn cynnig hyfforddiant i staff yn unig, 14% i wirfoddolwyr yn unig ac 17% ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Gweler Ffigur 4.9.

Ffigur 4.9 Cyfran y deiliaid grantiau sy'n defnyddio eu grant i gynnig hyfforddiant i staff neu wirfoddolwyr



A18. A ddefnyddiwyd rhywfaint o'r arian grant i gynnig hyfforddiant i staff neu wirfoddolwyr yn eich sefydliad?
Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Fel arfer, sefydliadau mwy oedd yn defnyddio eu grant i gynnig hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr: Roedd 46% o sefydliadau mawr wedi cynnig hyfforddiant, ynghyd â 44% o sefydliadau canolog eu maint. Dim ond 28% o sefydliadau meicro oedd wedi defnyddio'r grant i gynnig hyfforddiant.

Roedd yn fwyaf cyffredin cynnig hyfforddiant i staff neu wirfoddolwyr ymhlith deiliaid grantiau sy'n darparu cymorth argyfwng (62%), cyflogaeth a menter (60%), cymorth sector (59%), gwasanaethau gwybodaeth a chyngor (57%), a chymorth materol/lles (54%).

Deiliaid grantiau yn Llundain oedd y rhanbarth mwyaf tebygol o ddefnyddio'r grant i gadw neu recriwtio staff. Roeddent hefyd yn fwy tebygol na phob maes o adrodd defnyddio'r grant i gynnig hyfforddiant i staff neu wirfoddolwyr (45%, vs. cyfartaledd o 37%) yn ogystal â'r rhai yn y De-ddwyrain (42%). Roedd deiliaid grantiau yn y De Orllewin ac yng Ngogledd Iwerddon yn llai tebygol na'r cyfartaledd o adrodd defnyddio'r grant i gadw neu recriwtio staff, a allai esbonio pam eu bod yn llai tebygol o adrodd gan ddefnyddio'r grant i gynnig hyfforddiant i staff neu wirfoddolwyr (32% De Orllewin, 29% Gogledd Iwerddon).

5 Pa wahaniaeth mae'r grantiau wedi'i wneud?

Mae'r bennod hon yn edrych ar y gwahaniaeth mae'r grant wedi'i wneud, i fuddiolwyr unigol yn ogystal â'r gymuned ehangach.

Nododd y mwyafrif helaeth o ddeiliaid grantiau fanteision i unigolion, ac roedd y rhai mwyaf cyffredin ohonynt yn gysylltiedig â lles cymdeithasol

Adroddodd bron pob un o'r deiliaid grant (97%) fanteision i unigolion o ganlyniad i'r gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant (dywedodd 1% nad oedd unrhyw fanteision o'r fath,¹⁹ ac roedd 2% yn ansicr).

Y manteision mwyaf cyffredin oedd rhai 'cymdeithasol',²⁰ megis gwell iechyd meddwl a lles a chysylltiad cymdeithasol. Dywedodd tua thri chwarter y deiliaid grant fod eu gweithgareddau a/neu eu cymorth wedi cyfrannu at bobl yn gwella iechyd meddwl a lles (78%), mwy o gyswllt cymdeithasol (77%), gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (72%), a theimlo'n llai unig (66%); gweler Ffigur 5.1.


Yn llai cyffredin, cyfrannodd yr arian grant at²¹ fanteision 'sefyllfaol', megis gwell cyflogaeth, tai neu sefyllfaedd ariannol. Dywedodd tua un rhan o bump o ddeiliaid grantiau fod arian y grant wedi golygu bod anghenion sylfaenol tymor byr pobl yn cael eu diwallu (20%), bod eu sefyllfa gyflogaeth wedi gwella (18%), roeddent yn cael eu diogelu'n well rhag niwed, trais neu gamdriniaeth (15%), roedd eu lles ariannol a materol wedi gwella (15%) neu roedd eu sefyllfa o ran tai wedi gwella (8%).

¹⁹ O'r rhain, roedd y mwyafrif wedi cyfrannu at fanteision cymunedol. Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif bach iawn (0.003% o'r holl ddeiliaid grantiau) nad oeddent wedi cyflawni manteision unigol na chymunedol.

²⁰ Drwy 'cymdeithasol', rydym yn golygu gwelliannau sy'n ymwneud â lles unigolyn ei hun neu sut maen nhw'n rhyngweithio ag eraill, megis: iechyd meddwl a lles, cyswllt cymdeithasol, hyder, hunan-barch a gwydnwch a theimlo'n llai unig.

²¹ Drwy 'sefyllfaol' rydym yn golygu gwelliannau sy'n ymwneud â sefyllfa unigolyn, megis: cyflogaeth, tai neu sefyllfa ariannol.

Ffigur 5.1 Manteision y cyfrannodd y gweithgareddau a'r cymorth a ariannwyd gan grant tuag atynt



A10. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol y cyfrannodd eich gweithgareddau a'ch cymorth tuag atynt? Codau eraill <2% heb eu siartio. **Geiriad cod llawn wedi'i olygu oherwydd yr hyd. Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Roedd yn gyffredin i'r grant fod wedi effeithio ar fuddiolwyr mewn sawl ffordd. Cyflwynwyd rhestr o 13 o fanteision posibl i unigolion (gallent hefyd deipio rhai ychwanegol) ac, ar gyfartaledd, adroddodd deiliaid grantiau 5.5 o fanteision. Dewisodd deiliaid grantiau safonol fwy o fanteision ar gyfartaledd, o'i gymharu â deiliaid grantiau bach (7.6 vs. 5.2), gan adlewyrchu cyrhaeddiad mwy eu grant a mwy o ystod o weithgareddau.

Canfu dadansoddiad atchweliad sy'n archwilio'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar nifer y mathau o fanteision a nodwyd gan ddeiliaid grantiau mai cynnig cymorth un-i-un yw'r ffactor sy'n gysylltiedig fwyaf gydag adrodd am nifer fawr o fathau o fanteision i unigolion. Roedd gweithgareddau neu gymorth un-i-un a oedd naill ai drwy alwadau ffôn (1^{af}), wyneb yn wyneb (2^{il}) a chymorth negeseua (4^{ydd}) yn cyfrif am dri o'r pum sbardun uchaf o adrodd am fwy o fathau o fanteision i unigolion. Mae cymorth iechyd a lles lle mae'r buddiolwr yn ymgysylltu am chwe mis neu fwy (3^{ydd}), neu wybodaeth neu gyngor y mae'r buddiolwr yn ymgysylltu ag ef am chwe mis neu fwy (5^{ed}) hefyd yn sbardun i nifer uchel o fanteision i unigolion sy'n cael eu hadrodd.

Dewisodd deiliaid grantiau portffolio'r DU lawer llai o fanteision na'r cyfartaledd cyffredinol (4.3 v 5.5). Dylid darllen hyn yng nghyd-destun y ffaith bod llawer o ddeiliaid grantiau'r DU yn cyflwyno prosiectau sy'n canolbwyntio ar arloesi a newid yn y system, a gall eu heffaith fod yn anoddach i'w mesur.

Yn aml, gwelwyd manteision 'cymdeithasol' gyda'i gilydd. Er enghraifft:

- Lle'r oedd grant wedi cyfrannu at bobl yn teimlo'n llai unig, dywedodd 93% hefyd fod pobl yn cael mwy o gyswllt cymdeithasol, 91% wedi gwella iechyd meddwl a lles, ac 84% wedi gwella hyder, hunan-barch a gwydnwch. Mae dadansoddiad cydberthyniad yn dangos bod y berthynas gryfaf wedi digwydd rhwng grantiau a gyfrannodd at bobl yn teimlo'n llai unig ac yn cael mwy o gyswllt cymdeithasol (cyfernod o 0.538, lle mae'r gydberthynas uchaf yn 1).
- Lle'r oedd grant wedi cyfrannu at bobl wedi gwella iechyd meddwl a lles, dywedodd 85% eu bod wedi cael mwy o gyswllt cymdeithasol, dywedodd 82% eu bod wedi gwella hyder, hunan-barch a gwydnwch a 78% yn teimlo'n llai unig.

Gweler Atodiad yr Adroddiad am ragor o fanylion.

Adroddir yn aml ar fanteision sefyllfaol ochr yn ochr â manteision cymdeithasol lluosog

Lle'r oedd grant wedi cyfrannu at fantais 'sefyllfaol', anaml y nodwyd hyn ar ei ben ei hun ond yn hytrach fe'i cofnodwyd fel arfer ochr yn ochr â nifer o fanteision 'cymdeithasol'. Er enghraifft, lle'r oedd grant wedi cyfrannu at wella sefyllfa tai pobl, adroddodd 93% hefyd am well iechyd meddwl a lles, adroddodd 92% fod gan bobl fynediad at wybodaeth a chymorth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa, 92% bod hyder, hunan-barch a gwydnwch pobl wedi gwella, 85% bod gan bobl fwy o gyswllt cymdeithasol ac 85% bod pobl yn teimlo'n llai unig.


Dangoswyd hyn yn yr astudiaeth achos a gynhaliwyd gyda My Sisters Place.

Astudiaeth achos: My Sisters Place

Mae My Sisters Place yn wasanaeth cynghori ar gam-drin domestig yn Middlesbrough, a defnyddiwyd y grant i gefnogi datblygiad eu Tîm Ymateb Dwys i Drais yn y Cartref. Roedd y tîm yn helpu menywod sy'n dioddef trais yn y cartref drwy ddod o hyd i le iddynt aros, gan fynd gyda dioddefwyr i apwyntiadau a'u helpu i sefydlu eu cyfleustodau. Cafodd y cymorth hwn, ochr yn ochr â chwrsela, effaith gadarnhaol ar hunan-barch a gwydnwch y menywod. Mae'r astudiaeth achos hon yn tynnu sylw at sut mae cymorth ymarferol a manteision 'sefyllfaol' (e.e. dod o hyd i dai, trefnu biliau), yn arwain at fanteision cymdeithasol pellach ym mywydau buddiolwyr.

Mae Ffigur 5.2 yn dangos y berthynas rhwng manteision 'sefyllfaol' a manteision 'cymdeithasol', lle'r oedd o leiaf 85% o'r rhai a ddewisodd fantais 'sefyllfaol' hefyd wedi dewis mantais 'cymdeithasol'. Darperir data ategol yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Ffigur 5.2 Y berthynas rhwng manteision unigol



A10. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol y cyfrannodd eich gweithgareddau a'ch cymorth tuag atynt? Dangosir manteision sy'n uwch na 85%. Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Roedd deiliaid grantiau portffolio'r DU, ar y cyfan, yn llai tebygol o adrodd ar bob mesur; mae hyn yn debygol o gael ei lywio gan y ffaith eu bod wedi dewis 4.3 o fanteision ar gyfartaledd o'i gymharu â 5.5 ymhlith yr holl ddeiliaid grantiau. Unwaith eto, gall hyn fod o ganlyniad i wahanol nodau a gweithgareddau grantiau portffolio'r DU o'i gymharu â rhai portffolios eraill. Roedd deiliaid grantiau portffolio'r DU hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi gallu darparu eu cymorth arfaethedig eto, ac felly'n dangos effaith, oherwydd Covid (3% o gymharu â <1%).


Roedd deiliaid grantiau mewn lleoliadau trefol hefyd yn fwy tebygol o ddarparu amrywiaeth o fanteision; mae hyn yn debygol o gael ei sbarduno'n rhannol gan y ffaith bod mwy o ddeiliaid grantiau safonol mewn lleoliadau trefol o'u cymharu â chefn gwlad. Dim ond 6% o'r rhai mewn lleoliadau gwledig oedd â grantiau safonol o'i gymharu â 14% o'r rhai mewn lleoliadau trefol.

Mae'r grant wedi cefnogi ymgysylltu cymdeithasol yn gyffredin a chymysgu ag eraill sy'n wahanol

Roedd y grant yn cefnogi mwy o bobl i gael cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol yn ogystal â chyfle i gymryd rhan yn eu cymuned a helpu i ddiwallu anghenion lleol (66% a 60% yn y drefn honno), fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 5.3.

Cyflwynwyd rhestr o wyth o fanteision cymunedol posibl i ddeiliaid grantiau (gallent hefyd deipio rhai ychwanegol) ac, ar gyfartaledd, adroddodd deiliaid grantiau 3.2 o fanteision cymunedol. Dewisodd deiliaid grantiau safonol fwy o fanteision ar gyfartaledd, o'i gymharu â deiliaid grantiau bach (3.8 vs. 3.1).

Ffigur 5.3 Effeithiau ar y gymuned



A11. A pha rai, os o gwbl, o'r manteision cymunedol canlynol y cyfrannodd eich gwaith tuag atynt? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Pob deiliad grant (5,246)

Gogledd Iwerddon oedd â'r sgôr cyfmedrig uchaf o 3.6 mantais gymunedol. Yn unol â hynny, roedd deiliaid grantiau yng Ngogledd Iwerddon yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am y mwyaf o fanteision cymunedol, gan gynnwys:

- Mae pobl yn mynegi mwy o falchder lleol ac ymdeimlad o berthyn (51% vs. y cyfartaledd o 42%).
- Mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn eu cymuned a helpu i ddiwallu anghenion lleol (66% vs. y cyfartaledd o 60%).
- Mae mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael yn y gymuned (62% vs. y cyfartaledd o 56%)

Un astudiaeth achos a oedd wedi cyfrannu at bobl amrywiol yn cymysgu â'i gilydd oedd Naturewise Community Forest Garden.

Astudiaeth achos: Naturewise Community Forest Garden

Roedd Naturewise Community Forest Garden yn brosiect cymdeithasol yn Sir Benfro a ddaeth â phobl ynghyd o wahanol gefndiroedd. Roedd cyfanswm o 80 o wirfoddolwyr wedi helpu yn yr ardd o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol a soniodd llawer am sut yr oedd yr ardd yn eu helpu i deimlo'n llai ynysig yn ogystal â helpu eu hiechyd meddwl.

I mi, mae'n golygu gweld y plant yn chwarae ochr yn ochr â'r oedolion. Mae un bachgen bach yn glynu yn fy nghof yn arbennig... roedd am helpu ei dad a byddai'n gwthio berfa fach ochr yn ochr â'i dad ac roedd mor galonogol i weld y ddau ohonynt." Beth, gwirfoddolwr

Roedd cysylltiadau clir rhwng y manteision yr oedd deiliaid grantiau wedi'u cyflawni i'r unigolyn a'r rhai yr oeddent wedi cyfrannu atynt o fewn y gymuned ehangach. Lle nododd deiliaid grantiau eu bod yn cyfrannu at wasanaethau lleol yn bod yn fwy cysylltiedig ac ar gael ac yn haws cael gafael arnynt, roeddent yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi effeithio ar unigolion yn cael mwy o fynediad at wybodaeth a chymorth (75%) a chael gwell cymorth i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt (52%). Roedden nhw hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am amrywiaeth o welliannau mewn 'manteision sefyllfaol' (anghenion sylfaenol – 35%, cyllid – 30%, cyflogaeth – 29%, tai – 17%).

Roedd y math o weithgaredd yr oedd deiliad grant yn ei gyflawni yn dylanwadu ar y manteision a gyflawnwyd ganddynt i unigolion ac yn y gymuned

Mae gwahaniaethau hefyd yn ôl gweithgarwch, gyda grantiau'n cynnig cymorth argyfwng a chymorth materol a lles/anghenion sylfaenol yn adrodd dros wyth mantais i unigolion (8.5 ac 8.1 yn y drefn honno) tra bod asedau/cyfleusterau cymunedol a grantiau gofod yn adrodd ar gyfartaledd o lai na phump (4.8). Yn y cyfamser, o ran y manteision a gyflawnwyd o fewn y gymuned ehangach, cyflawnodd gweithgareddau sy'n ymwneud â chymorth a datblygu sector a chyflogaeth a menter y nifer uchaf o fanteision cymunedol yn 4.3 a 4.1 yn y drefn honno, ac yna ymgysylltu â'r gymuned (3.9), gwybodaeth a chyingor (3.8), digidol (3.8), y celfyddydau a threftadaeth (3.8), yr amgylchedd (3.8) a chymorth materol//anghenion sylfaenol (3.8). Mae'n bwysig nodi, er bod mwy o amrywiaeth o fanteision yn cael eu hadrodd, nad yw hynny o reidrwydd yn dangos mwy o effaith (mae'n dangos mwy o fanteision).

Roedd rhai gwahaniaethau nodedig yn y mathau o fanteision a gyflawnwyd gan bob math o weithgaredd, gyda rhai mathau o weithgarwch yn fwy tebygol o sicrhau manteision unigol (cymorth argyfwng, cymorth materol a lles), ac mae eraill yn fwy tebygol o sicrhau manteision cymunedol yn hytrach nag unigolion (cymorth a datblygiad sector) – gweler Tabl 5.1 am ragor o fanylion:

- Arweiniodd prosiectau a oedd yn darparu cymorth argyfwng yn fwyaf cyffredin at well iechyd meddwl a lles (94%) a gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (92%), ond roeddent hefyd yn fwy tebygol na phrosiectau eraill o arwain at bobl yn cael cefnogaeth well i gyrchu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd sydd eu hangen arnynt (68%). I'r gwrthwyneb,

roeddent yn llai tebygol na mathau eraill o weithgarwch i sicrhau manteision i'r gymuned ehangach.

- Dywedodd deiliaid grantiau sy'n darparu cymorth materol a lles eu bod yn cyflawni gwell iechyd meddwl a lles (89%), ond roeddent hefyd yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn darparu gweithgareddau eraill o fod wedi diwallu anghenion sylfaenol pobl o ganlyniad i'r grant (78%).
- Roedd asedau, cyfleusterau, mannau a lleoedd cymunedol, y rhai a oedd yn canolbwyntio ar yr amgylchedd a phrosiectau cymorth a datblygu'r sector ar y cyfan yn llai tebygol o sicrhau manteision unigol. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn darparu prosiectau cymorth a datblygu'r sector yn fwy tebygol o fod wedi cyfrannu at fanteision sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- Roedd deiliaid grantiau a oedd yn darparu gweithgareddau sy'n ymwneud ag asedau cymunedol a'r amgylchedd hefyd ar y cyfan yn llai tebygol o sicrhau'r rhan fwyaf o fanteision cymunedol. Fodd bynnag, y ddau eithriad i hyn oedd bod deiliaid grantiau yn darparu gweithgareddau oedd yn gysylltiedig ag asedau cymunedol yn fwy tebygol na gweithgareddau eraill o sicrhau gwell mynediad i seilwaith ac adnoddau allweddol, tra bod gweithgareddau oedd yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn fwy tebygol o sicrhau mwy o falchder a pherthyn lleol yn y gymuned.

Tabl 5.1 Y berthynas rhwng y math o weithgaredd a'r manteision mwyaf cyffredin a gyflawnwyd ar lefel unigol a chymunedol

Math o weithgaredd	Manteision unigol	Manteision cymunedol
Iechyd a lles	<ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a lles meddwl gwell (93%) • Gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (86%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision cymunedol cryf
Gwybodaeth a chynghor	<ul style="list-style-type: none"> • Gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (90%) • roedd gan bobl fynediad at wybodaeth a chymorth (89%) • Iechyd a lles meddwl gwell (89%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision cymunedol cryf
Addysg a dysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (86%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (77%)
Cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyswllt cymdeithasol (90%) • Iechyd a lles meddwl gwell (86%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (78%)
Asedau cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision unigol cryf 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision cymunedol cryf ond eithriad – gwell mynediad i seilwaith ac adnoddau allweddol (45%) (h.y. mae'r math hwn o weithgaredd yn fwy tebygol na mathau eraill o weithgarwch i arwain at y fantais hon)
Ymgysylltu â'r gymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyswllt cymdeithasol (87%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (80%)

		<ul style="list-style-type: none"> • mwy o gyfleoedd i ymgysylltu a diwallu anghenion lleol (79%)
Chwaraeon a hamdden	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyswllt cymdeithasol (87%) • Iechyd a lles meddwl gwell (87%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (77%)
Digidol	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyswllt cymdeithasol (85%) • Iechyd a lles meddwl gwell (86%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (76%)
Celfyddydau a threftadaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyswllt cymdeithasol (90%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (80%) • mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael (79%)
Cymorth a datblygiad sector	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision unigol cryf 	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyfle i ymgysylltu a diwallu anghenion lleol (80%) • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (79%)
Cyflogaeth a menter	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyswllt cymdeithasol (86%) • Gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (89%) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw (85%)
Cymorth mewn argyfwng	<ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a lles meddwl gwell (94%) • Gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (92%) • <i>eithriad</i> - cefnogaeth well i gyrchu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd sydd eu hangen arnynt (68%) (h.y. mae'r math hwn o weithgaredd yn fwy tebygol na mathau eraill o weithgarwch i arwain at y fantais hon) 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision cymunedol cryf
Cymorth materol a lles	<ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a lles meddwl gwell (89%) • <i>eithriad</i> - anghenion sylfaenol yn cael eu bodloni (78%) (h.y. mae'r math hwn o weithgaredd yn fwy tebygol na mathau eraill o weithgarwch i arwain at y fantais hon) 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision cymunedol cryf
Amgylchedd	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision unigol cryf 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim manteision cymunedol cryf <i>ond eithriad</i> – mwy o falchder lleol ac ymdeimlad o berthyn – (64%) (h.y. mae'r math hwn o weithgaredd yn fwy tebygol na mathau eraill o weithgarwch i arwain at y fantais hon)

Dyweddodd deiliaid grantiau sy'n targedu pobl ifanc ei fod wedi arwain at well hyder, hunan-barch a lles ymhlith y grŵp targed

Roedd traean (34%) o ddeiliaid grantiau yn targedu pobl ifanc nad oedd mewn perygl ac roedd 13% yn targedu pobl ifanc mewn perygl. Roedd gorygyffwrdd sylweddol rhwng y ddau faes; yn gyffredinol Roedd bron i bedwar o bob deg o ddeiliaid grantiau (38%, neu tua 4,700 o grantiau mewn blwyddyn nodweddiadol) wedi targedu eu **cefnogaeth at bobl ifanc (boed mewn perygl ai peidio)**. Cafodd y deiliaid grant hyn eu cyfeirio at gwestiwn ar wahân lle gofynnwyd iddynt am yr effeithiau penodol yr oeddent wedi'u cyflawni ar gyfer eu cynulleidfa darged. Dywedodd wyth o bob deg fod y grant wedi arwain at well hyder, hunan-barch a lles ymhlith y bobl ifanc (80%). Mae hyn yn cyfateb i tua 3,700 o grantiau mewn blwyddyn nodweddiadol. Roedd hefyd yn gyffredin ei fod wedi cyfrannu at gyfeillgarwch/perthnasoedd cryfach (65%).

Roedd hyn yn amlwg yn yr astudiaeth achos o'r prosiect Music 4 U.


Astudiaeth achos: Music 4 U

Mae Music 4 U yn ysgol lwyfan gynhwysol i bobl ifanc (gan gynnwys y rhai ag anghenion cymorth ychwanegol) yn Aberdeen, a ddefnyddiodd eu grant i gynnal perfformiadau cymunedol a rhedeg caffi meic agored ar gyfer pobl ifanc NEET lleol. Drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc leol gyfarfod a pherfformio yn eu hysgol lwyfan gynhwysol, cytunodd y swyddog codi arian a'r tiwtor fod y prosiect wedi cynyddu hyder i'r bobl a fynychodd yn ogystal â meithrin cyfeillgarwch newydd. Er enghraifft, eglurodd un person ifanc, Sophie, ei bod yn swil iawn cyn ymuno â Music 4 U ac yn aml yn cuddio y tu ôl i berfformwyr eraill. Trwy fynychu a pherfformio'n rheolaidd, mae wedi gweithio at berfformio'n unigol ac wedi magu'r hyder i wneud cais ac ennill lle mewn ysgol haf elít, yn ogystal â gwirfoddoli yn Music 4 U.

"Rhoddodd fwy o hyder i mi yn yr ysgol ac rwyf wedi gwneud cymaint o gyfeillgarwch ... Dwi'n meddwl nad ydw i mor unig bellach".

Sophie, buddiolwr

Ffigur 5.4 Effeithiau ar bobl ifanc




A11D. Fe wnaethoch ddweud eich bod yn cefnogi pobl ifanc gyda'r grant a gawsoch. Pa un o'r manteision canlynol wnaethoch chi eu cyflawni ar gyfer pobl ifanc? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Deiliaid grantiau a dargedodd bobl ifanc gyda chymorth a gweithgareddau gan ddefnyddio'r grant (1992)

Roedd tua un o bob chwech (16%) o ddeiliaid grantiau wedi **targedu'r rhai ag anghenion cymhleth lluosog** gyda'r grantiau a gawsant. Roedd y mwyafrif (91%) wedi gweld gwelliant yn iechyd meddwl y rhai yr oeddent yn eu cefnogi, tra bod dros ddwy ran o dair (68%) yn gweld gwell iechyd a lles corfforol. Roedd effeithiau eraill yn llai cyffredin, er bod tua thraean wedi nodi gwell cyllid (30%) neu lai o bobl yn ymddieithrio oddi wrth neu'n gwrthod gwasanaethau (29%), gweler Ffigur 5.5.

Nododd y deiliaid grant hyn 3 mantais ar gyfartaledd. Nododd deiliaid grantiau safonol fwy o fanteision i'r rhai ag anghenion cymhleth o gymharu â grantiau bach (3.7 v 2.9).

Ffigur 5.5 Effeithiau ar y rhai ag anghenion cymhleth



A11E. Fe wnaethoch ddweud eich bod yn cefnogi pobl ag Anghenion Cymhleth Lluosog gyda'r grantiau a gawsoch. Pa un o'r canlynol a wnaethoch chi ar gyfer y rhai ag Anghenion Cymhleth Lluosog? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Deiliaid grantiau a dargedodd y rhai ag anghenion cymhleth gyda chymorth a gweithgareddau gan ddefnyddio'r grant (824)

Rhodddwyd hanner y grantiau tuag at **wella asedau cymunedol neu seilwaith neu arbed amwynderau** rhag cau (52%). Nododd y rhai a oedd wedi defnyddio'r grant fel hyn amrywiaeth o fanteision, a oedd yn ymwneud yn gyffredin â gwella'r gofod ffisegol: roedd tua thraean wedi'i ddefnyddio i brynu offer newydd neu wedi'i adnewyddu (35%), ar gyfer manau awyr agored newydd neu well, gan gynnwys mynediad (34%), i wneud manau'n fwy diogel ac yn fwy croesawgar (32%) neu i wneud atgyweiriadau neu adnewyddu asedau ffisegol presennol (30%). Gweler Ffigur 5.6.

Un enghraifft o hyn o'r astudiaethau achos yw Southside Family Project.


Astudiaeth achos: Southside Family Project

Defnyddiodd Southside Family Project y grant o'r Gronfa i osod popty pítsa ar dir Fferm Dinas Caerfaddon. Adeiladwyd y popty pítsa newydd gan arbenigwr (y talwyd amdano gyda'r grant) a'i gynorthwyo gan wirfoddolwyr a theuluoedd lleol. Datblygodd y popty pítsa y rhaglen gwledd deuluol sy'n helpu i ddod â theuluoedd lleol o gymunedau difreintiedig at ei gilydd mewn amgylchedd diogel, i ddysgu am fwyta a choginio'n iach. Esboniodd Chris, y rheolwr:

"Mae hwn yn gaffaeliad gwych ar gyfer y dyfodol, bydd yn ein helpu i ymgysylltu'n galetach â phobl ifanc a'u teuluoedd ... bydd y popty pítsa yn atyniad go iawn." Chris, rheolwr

Dewisodd y deiliaid grant hyn gyfartaledd o 2.2 o fanteision. Dewisodd grantiau gwledig fwy o fanteision o ran yr hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â grantiau trefol (2.3 v 2.1).

Ffigur 5.6 Effeithiau ar asedau cymunedol



A11A. Pa un, os o gwbl, o'r canlynol a wnaethoch chi eu cyflawni? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Deiliaid grantiau a ddywedodd fod grantiau wedi gwella asedau/cyfleusterau/lleoedd cymunedol a lleoedd NEU wedi helpu cymunedau i gael mynediad i seilwaith ac adnoddau allweddol NEU wedi arbed amwynderau lleol rhag cau (2792)


Roedd tua un o bob chwech (18%) o ddeiliaid grantiau wedi defnyddio'r grant i **wella sefyllfa cyflogaeth pobl**. Dywedodd y rhan fwyaf o'r deiliaid grant hyn (83%) fod pobl wedi gwella eu lles cymdeithasol ac emosiynol, tra bod tua dwy ran o dair wedi datblygu sgiliau ar gyfer y gweithle (68%), dechrau chwilio am waith (64%) a dechrau addysg a hyfforddiant nad yw yn y gweithle (62%).

Roedd yn gyffredin i ddeiliaid grantiau adrodd am nifer uchel o fanteision yma: cyfartaledd o 5.3 o fanteision gwahanol (mewn perthynas â mathau eraill o effaith, nododd y rhai a ddywedodd eu bod yn adrodd am well sefyllfa o ran cyflogaeth fwy o fanteision gwahanol).

O'r rhai â gwell sefyllfa o ran cyflogaeth, y fantais fwyaf cyffredin oedd i bobl fod wedi gwella eu lles cymdeithasol ac emosiynol (83%). Yn nodedig, roedd tua phedwar o bob deg wedi cyfrannu at bobl yn symud i gyflogaeth barhaus o chwe mis neu fwy (42%) neu'n dechrau cyflogaeth tymor byr sy'n para hyd at chwe mis (39%). Noder ei bod yn debygol y bydd gorgyffwrdd gan y gallai deiliaid grantiau fod yn ymwybodol o nifer o unigolion sy'n symud i gyflogaeth ar ôl cymryd rhan yn y prosiect,

rhai â chyflogaeth hirdymor ac eraill y bydd y gyflogaeth yn fwy tymor byr iddyn nhw. Dywedodd dros hanner (54%) fod y grant wedi cyfrannu at gyflogaeth tymor byr neu barhaus.

Ffigur 5.7 Effeithiau ar y rhai sydd â gwell sefyllfa o ran cyflogaeth




A11B. Fe wnaethoch chi ddweud fod y grantiau wedi arwain at well sefyllfa o ran cyflogaeth. Pa un o'r canlynol wnaethoch chi ei gyflawni? Codau eraill <2% heb eu siartio. Sylfaen: Deiliaid grantiau a ddywedodd fod grantiau yn gwella sefyllfa cyflogaeth pobl (905)

Dywedodd llai nag un o bob deg (8%) o'r holl ddeiliaid grantiau fod eu gweithgareddau a ariannwyd gan grant wedi arwain at **well sefyllfa o ran tai i fuddiolwyr**; gweler Ffigur 5.8. O'r rhai a oedd wedi cyfrannu at y canlyniad hwn, dywedodd dros hanner fod buddiolwyr wedi symud i lety â chymorth (56%), wedi symud i mewn neu allan o lety dros dro (54%) neu wedi cynnal eu cytundeb tenantiaeth (54%). Soniodd tua un o bob deg (9%) yn ddigymell fod y grant wedi arwain at unigolion yn cael cymorth a chyngor i gael cymorth pellach, tra bod 4% wedi cyfrannu at waith atgyweirio neu adnewyddu.

Nifer gyfartalog y manteision fesul grant oedd 2.2.

Ffigur 5.8 Effeithiau ar sefyllfa tai



A11C. Fe wnaethoch chi ddweud fod yr arian wedi arwain at sefyllfa well o ran tai. Pa un o'r canlynol wnaethoch chi ei gyflawni? ~ yn dynodi sôn digymell. Sylfaen: Deiliaid grantiau a ddywedodd fod grantiau yn gwella sefyllfa tai (402)

6 Casgliadau

Nod yr ymchwil hon oedd casglu data cynrychioliadol am gyrhaeddiad ac effaith cyllid Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Dyma'r tro cyntaf i'r Gronfa ymgymryd ag ymchwil gynrychioliadol ar raddfa fawr ar draws portffolios a rhaglenni gwledydd i archwilio'n systematig gyrhaeddiad ac effeithiau deiliaid grantiau, buddiolwyr a'r gymuned ehangach. Cynhaliwyd gweithgareddau gwerthuso blaenorol fesul rhaglen, gan fabwysiadu dull gwerthuso pwrpasol i ganolbwyntio ar gyllid ar thema neu bwnc penodol. Llwyddiant allweddol yr ymchwil hon yw ei bod wedi bod yn bosibl casglu data ystyrlon gan nifer fawr o ddeiliaid grantiau amrywiol ac allosod y canlyniadau i gyllid 'nodweddiadol'.

Roedd yr ymchwil yn cwmpasu grantiau a gynhaliwyd cyn y pandemig (cyn mis Ebrill 2020) ac a ddaeth i ben rhwng Ionawr 2019 a Mehefin 2020. Roedd yn ôl-weithredol yn cipio profiadau 5,246 o ddeiliaid grantiau; mae hyn yn cynrychioli 31% o'r rhai y cysylltwyd â nhw, a thros ddwy ran o bump o nifer y grantiau a ddyfarnwyd mewn blwyddyn nodweddiadol. Mae'r lefel uchel hon o gyfranogiad yn golygu bod y canfyddiadau'n gadarn iawn, ac yn cynrychioli'r ystod lawn o grantiau nad ydynt yn rhai 3^{ydd} parti a gefnogir gan y Gronfa.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi defnyddio'r grant i wella cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol

Defnyddiwyd y grantiau i gefnogi ystod eang o weithgareddau. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau wedi defnyddio eu grant i wella cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol (fel cyfeillio, preswylfeydd/tripiau, clybiau, digwyddiadau cymunedol, grwpiau cymunedol, a gwirfoddoli) ac roedd tua thraean i hanner wedi defnyddio'r grant ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles, ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned (fel cyd-gynhyrchu, datblygu cymunedol, hyfforddiant arweinyddiaeth a mentora a chymorth gan gymheiriaid), ar gyfer addysg a dysgu, a / neu ar gyfer gwella asedau / cyfleusterau / mannau a lleoedd cymunedol.

Helpodd y grant y rhan fwyaf o sefydliadau i gynyddu capasiti neu gyrraedd *mwy* o fuddiolwyr, a thua dwy ran o bump i hanner i gyrraedd buddiolwyr *newydd*, creu gwasanaethau neu weithgareddau newydd, bod yn fwy gwydn yn ariannol a meithrin gallu, i wella mannau a lleoedd yn y gymuned, ac i gydweithio â phartneriaid. Felly mae'r grant wedi helpu sefydliadau i gynyddu eu cyrhaeddiad a gwella'r ffordd maen nhw'n gweithio.

Mae'r grantiau wedi llwyddo i gael cyrhaeddiad eang yn ogystal â darparu cymorth manwl

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gyrhaeddiad sylweddol, gyda'r canfyddiadau'n nodi:

- Bod y sefydliadau sy'n derbyn grantiau o'r Gronfa mewn blwyddyn nodweddiadol yn cefnogi 5.2m o fuddiolwyr unigryw ar draws oes y grantiau hynny (dywedwyd bod 30% o'r grantiau'n para mwy na blwyddyn).²²

²² Noder, efallai y bydd rhywfaint o gyfrif dwbl o unigolion gan ddeiliaid grantiau gwahanol (h.y. pe bai person yn cael ei gefnogi gan ddau ddeiliad grant gwahanol). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys allosod o ddata wedi'i hunan-gofnodi

- Yn ogystal, lle defnyddiwyd grantiau i wella asedau, cyfleusterau, manau a lleoedd yn y gymuned (roedd hyn yn elfen o agosáu at hanner yr holl grantiau), defnyddiwyd y rhain gan 1.8m o bobl bob mis.

Fodd bynnag, nid yw'r Gronfa'n canolbwyntio'n unig ar gyflawni'r cyrhaeddiad ehangaf posibl, gan fod rhywfaint o grantiau yn mynd i weithgareddau dwysedd uchel sy'n cefnogi llai o fuddiolwyr mewn ffyrdd mwy dwys, megis cymorth argyfwng. Nid yn unig y canfu'r arolwg fod gan y Gronfa gyrhaeddiad eang, ond darparodd dwy ran o dair o ddeiliaid grantiau ryw lefel o weithgaredd neu gymorth un-i-un gyda'u grant.

Mae'r cyllid wedi cefnogi meithrin gallu, gan gynnwys deiliaid grantiau sy'n gweithio gyda thua 300,000 o wirfoddolwyr

Mae cyflawni'r gweithgareddau a gefnogir gan y grant wedi arwain at lawer o weithio gyda a recriwtio gwirfoddolwyr, cadw a recriwtio staff, a gweithio gyda sefydliadau partner. Mae pob un o'r rhain yn cynrychioli meithrin gallu cynyddol i'r sefydliadau hyn, yn ogystal â manteision unigol i wirfoddolwyr a staff (fel y nodwyd yn yr astudiaethau achos), megis gwell sgiliau a lles. Mae'r canfyddiadau'n dangos:

- Gweithiodd dros bedair rhan o bump o ddeiliaid grantiau gyda gwirfoddolwyr i gyflawni'r gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant, gyda thua 300,000 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan fel hyn, gydag 80,000 o wirfoddolwyr yn cael eu recriwtio gan ddefnyddio'r grant.
- Cafodd 4,700 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) eu cadw neu eu recriwtio o ganlyniad i'r grantiau.
- Defnyddiodd bron i ddwy ran o bump y grant i helpu i hyfforddi staff neu wirfoddolwyr.
- Gweithiodd ychydig dros hanner ohonynt gyda sefydliadau partner i gyflawni eu gweithgarwch a'u cymorth, gan weithio'n fwyaf cyffredin gyda grwpiau cymunedol neu elusennau cofrestredig, a dywedodd dwy ran o bump fod y grant wedi eu helpu i weithio ar y cyd â sefydliadau partner.

Nododd y mwyafrif helaeth o ddeiliaid grantiau fanteision i unigolion, ac roedd y rhai mwyaf cyffredin ohonynt yn gysylltiedig â lles cymdeithasol

Fe wnaeth yr ymchwil hefyd ddatgelu natur helaeth yr effaith mae deiliaid grantiau wedi'i chael ar gyfer unigolion ac ar gymunedau lleol, gan ddefnyddio cyllid gan y Loteri Genedlaethol. O ran effeithiau a manteision i unigolion, dywedodd dwy ran o dair neu fwy o ddeiliaid grantiau fod eu gweithgareddau a'u cymorth wedi cyfrannu tuag at:

- bobl wedi gwella eu iechyd meddwl a lles,
- mwy o gyswllt cymdeithasol,
- gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch,
- a theimlo'n llai unig.

Er ei bod yn llai cyffredin i arian grant gyfrannu at fanteision 'sefyllfaol' fel gwell cyflogaeth, tai neu sefyllfaoedd ariannol, dywedodd tua un rhan o bump o ddeiliaid grantiau o hyd fod y gweithgareddau a gefnogir yn golygu:

- bodlonwyd anghenion sylfaenol tymor byr pobl,
- roedd eu sefyllfa gyflogaeth wedi gwella,
- roedden nhw'n cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed, trais neu gamdriniaeth,
- roedd eu lles ariannol a materol wedi gwella.

Roedd yr effeithiau sefyllfaol hyn hefyd yn aml iawn yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl a lles, hunan-barch a hyder; felly gall grantiau sy'n arwain at well manteision sefyllfaol fod yn arbennig o effeithiol.

Nododd deiliaid grantiau hefyd nifer o fanteision cymunedol

Dywedodd bron pob un o'r deiliaid grant fod y gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant yn cyfrannu at fanteision cymunedol, a bod deiliaid grantiau yn tueddu i adrodd am nifer o fanteision cymunedol. Roedd dros hanner yn rhoi cyfleoedd i bobl gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw, mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn eu cymuned a helpu i ddiwallu anghenion lleol, a bod mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael yn y gymuned. Dywedodd dros ddwy ran o bump fod pobl yn mynegi mwy o falchder lleol ac ymdeimlad o berthyn o ganlyniad i weithgareddau'r deiliaid grantiau.

Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod cysylltiad agos rhwng rhai manteision cymunedol a rhai manteision unigol penodol. Er enghraifft, roedd grantiau sy'n adrodd bod pobl yn cael y cyfle i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (tua 10 pwynt canran) o roi gwybod i bobl am y cyfle i gael:

- mwy o gyswllt cymdeithasol,
- lechyd a lles meddwl gwell,
- gwell hyder a hunan-barch,
- a phobl yn teimlo'n llai unig.

Yn yr un modd, lle nododd deiliaid grantiau fod eu gweithgareddau'n gwneud gwasanaethau lleol yn fwy hygyrch a chysylltiedig (dywedodd ychydig dros chwarter eu bod yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o adrodd am nifer o fanteision sefyllfaol i unigolion megis:

- gwell lles ariannol a materol,
- gwell sefyllfa o ran cyflogaeth,
- gwell sefyllfa tai.

Argymhellion ymchwil wrth symud ymlaen a myfyrdodau terfynol

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ymchwil yn gallu dweud yn uniongyrchol faint o unigolion a wnaeth elwa ym mhob ffordd benodol. Casglwyd data ar nifer *cyffredinol* y buddiolwyr, ac yna p'un a oedd gafodd y gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant unrhyw un o'r manteision a restrwyd. Efallai bod un unigolyn wedi teimlo'r manteision a nodwyd gan sefydliad y bu'n gweithio gydag ef neu bob un ohonynt – neu'n fwyaf tebygol, rywle rhyngddynt. Gall hyn fod yn rhywbeth i'w ystyried ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, er y byddai'n bwysig asesu'n gyntaf a fyddai deiliaid grantiau yn gallu ateb ar y lefel hon o fanylion.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi cyrraedd nifer eang o fuddiolwyr; o ran ehangder - gyda mwy na 5 miliwn o fuddiolwyr - a dyfnder, gyda mwyafrif yn cynnig rhyw lefel o weithgaredd neu gymorth un-i-un. At hynny, mae'r grantiau wedi cael effaith a manteision helaeth i unigolion a chymunedau sydd â chyswllt cymdeithasol a lles ar flaen y gad yn hyn o beth.

7 Atodiad Yr Adroddiad

Y berthynas rhwng manteision a gyflawnwyd

Roedd sawl perthynas rhwng manteision a gyflawnwyd gan ddeiliaid grantiau, fel y disgrifir ym mhrif gorff yr adroddiad. Cynhaliodd IFF ddadansoddiad cydberthyniad i edrych ar gryfder y berthynas rhwng manteision unigol a chymunedol a gyflawnwyd. Gwelwyd y cydberthyniadau canlynol:

- Roedd pobl yn teimlo'n llai unig + Roedd gan bobl fwy o gyswllt cymdeithasol: 0.538
- Gwella lles ariannol a materol pobl + mae eu sefyllfa o ran tai wedi gwella: 0.521
- Roedd iechyd meddwl a lles pobl yn well + Roedd pobl yn teimlo'n llai unig: 0.450
- Roedd anghenion sylfaenol tymor byr pobl yn cael eu diwallu – roedd bwyd, dillad, siopa, budd-daliadau + eu lles ariannol a materol yn gwella: 0.448
- Roedd pobl yn cael eu cefnogi'n well i gyrchu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yr oedd eu hangen arnynt + roedd ganddynt fynediad at wybodaeth a chymorth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa: 0.426
- Mae mwy o bobl yn cael cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw + Roedd gan bobl fwy o gyswllt cymdeithasol: 0.408
- Roedd anghenion sylfaenol tymor byr pobl yn cael eu diwallu – bwyd, dillad, siopa, budd-daliadau + Roedd sefyllfa tai pobl yn gwella: 0.406

Mae Ffigur 7.1 yn dangos y gydberthynas rhwng manteision unigol, tra bod Ffigur 7.2 yn dangos y manteision unigol a gyflawnwyd gyda phob mantais gymunedol. Er enghraifft, yn Ffigur 7.1, o ddeiliaid grantiau a ddywedodd fod eu grant wedi arwain at "bobl yn cael mwy o gyswllt cymdeithasol", dywedodd 80.4% hefyd fod "pobl yn teimlo'n llai unig" tra bod 9% hefyd yn dweud bod "sefyllfa tai pobl wedi gwella". Yn Ffigur 7.2, o'r rhai a ddywedodd fod eu grant wedi cyfrannu at "well mynediad at seilwaith ac adnoddau allweddol" yn y gymuned, dywedodd 69.6% ohonynt hefyd fod "pobl yn teimlo'n llai unig".

Mae cell gysgodol werdd dywyll yn awgrymu cysylltiad cryf rhwng dwy fantais.

Ffigur 7.1 Dadansoddiad manteision unigol (A10)

	: Roedd gan bobl fwy o gyswilt cymdeithasol	Roedd gan bobl yn teimlo'n llai unig	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chynogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa
	100.0%	93.1%	84.0%	86.4%	85.0%	83.3%	84.3%	88.3%	86.6%	85.0%	83.9%	81.6%	85.4%						
	80.4%	100.0%	79.9%	80.1%	85.1%	81.1%	84.4%	88.4%	77.6%	77.7%	82.7%	69.8%	78.0%						
	52.4%	57.7%	100.0%	82.4%	92.1%	86.9%	75.1%	83.5%	51.9%	53.8%	81.9%	61.8%	59.7%						
	20.2%	21.6%	30.8%	100.0%	61.7%	53.2%	36.0%	32.7%	21.8%	20.1%	41.1%	32.0%	23.1%						
	9.0%	10.5%	15.7%	28.1%	100.0%	42.2%	30.7%	23.4%	11.5%	9.8%	33.2%	11.8%	10.5%						
	16.2%	18.3%	27.1%	44.4%	77.3%	100.0%	47.3%	36.1%	19.2%	17.4%	40.6%	21.1%	19.0%						
	21.5%	25.0%	30.7%	39.4%	73.8%	62.0%	100.0%	43.6%	25.4%	22.6%	46.1%	21.7%	22.8%						
	30.3%	35.1%	46.0%	48.2%	75.6%	63.7%	58.7%	100.0%	34.9%	31.8%	65.6%	30.7%	33.2%						
	50.4%	52.4%	48.4%	54.4%	62.9%	57.7%	57.9%	59.2%	100.0%	53.2%	60.8%	50.2%	50.8%						
	86.2%	91.3%	87.4%	87.5%	93.2%	90.5%	89.8%	93.8%	92.6%	100.0%	93.4%	84.3%	89.3%						
	15.9%	18.1%	24.9%	33.4%	59.2%	39.5%	34.2%	36.2%	19.8%	17.4%	100.0%	21.7%	18.9%						
	46.0%	45.5%	55.7%	77.2%	62.4%	61.2%	47.9%	50.4%	48.5%	46.8%	64.6%	100.0%	52.7%						
	79.6%	84.2%	89.1%	92.4%	92.0%	91.0%	83.2%	90.2%	81.2%	82.0%	92.8%	87.2%	100.0%						

Ffigur 7.2 Y berthynas rhwng manteision cymunedol ac unigol

	A11 Gwell mynediad at seilwaith ac adnoddau silweddol (parciau canolfannau cymunedol, adnewyddu, triniaethau gymunedol)	A11 Mae rhagor o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael yn y gymuned	A11 Mwy o glifeddi i bobl gymryd rhan yn eu cymuned a helpu i ddialu anghenion lleol	A11 Mae mwy o bobl yn cael cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n waelodol iddynt	A11 Gwasanaethau lleol yn lwy cysylliedig, ar gael ac yn taws eu defnyddio	A11 Amwyrdorau lleol (siopau, taramdai, caffis, alyniadau) wedi'u hachub rhag cau a'u rhedeg gan y gymuned	A11 Mae pobl yn mynegi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a rheolaeth dros benderfyniadau lleol	A11 Mae pobl yn mynegi mwy o berthyn mwy lleol	A11. Llai o droseddau ac ymddyddad gwirgymdeithasol yn y gymuned
A10: Roedd gan bobl lwy o gyswilt cymdeithasol	83.0%	88.3%	86.9%	89.4%	85.6%	88.4%	88.3%	87.3%	62.0%
A10: Roedd pobl yn teimlo'n llai unig	69.6%	77.0%	77.9%	79.1%	81.5%	82.4%	81.8%	77.8%	46.0%
A10: Roedd gan bobl fyriediad at wybodaeth a chymorth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	49.2%	49.9%	57.6%	54.5%	74.7%	54.9%	69.8%	53.4%	81.3%
A10: Mae sefyllfa cyflogaeth pobl wedi gwella	21.9%	19.4%	24.1%	22.8%	29.2%	32.5%	34.1%	23.1%	27.0%
A10: Mae sefyllfa tai pobl wedi gwella	11.0%	7.7%	10.1%	9.3%	17.0%	15.6%	16.3%	9.9%	26.5%
A10: Gwellwyd les arafnol a materol pobl	19.5%	15.6%	18.5%	17.1%	29.7%	28.3%	28.4%	17.1%	23.4%
A10: Bodlonwyd anghenion sylfaenol tymor byr pobl – bwyd, dillad, siopa, budd-daliadau	27.1%	20.8%	24.8%	22.1%	35.4%	36.3%	34.4%	23.5%	32.3%
A10: Roedd pobl yn cael gwell cefnogaeth i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofai cymdeithasol yr oedd eu hangen arnynt	32.8%	28.2%	32.7%	30.6%	52.0%	37.1%	43.7%	29.1%	54.2%
A10: Roedd iechyd corfforol pobl yn well	59.6%	52.6%	49.6%	51.9%	54.4%	54.2%	57.8%	53.6%	54.4%
A10: Roedd iechyd meddwl a les pobl yn well	78.1%	84.3%	84.5%	86.7%	87.5%	79.8%	85.2%	85.1%	85.9%
A10: Pobl yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed, trais neu gamdriinaeth	18.7%	14.5%	17.7%	16.8%	26.9%	24.7%	26.7%	17.0%	55.9%
A10: Roedd addysg a daiblyddied pobl yn well	50.7%	49.3%	50.5%	50.1%	53.3%	50.0%	59.8%	52.7%	52.8%
A10: Gwellwyd hyder, hunan-barch a gwydnwch pobl	66.0%	77.4%	80.4%	81.5%	84.6%	70.2%	85.9%	78.6%	92.0%

Y berthynas rhwng y math o weithgaredd a'r manteision a gyflawnwyd

Dyma'r manteision mwyaf cyffredin a gyflawnwyd yn ôl y math o weithgaredd:

- Roedd deiliaid grantiau a oedd yn cyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles yn debygol o fod wedi cyflawni gwell iechyd meddwl a lles (93%) a gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (86%).
- Roedd y prosiectau hynny oedd yn canolbwyntio ar wybodaeth a chynghor, wedi cyflawni gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (90%), pobl yn cael mynediad at wybodaeth a chymorth am eu sefyllfa (89%) a gwell iechyd meddwl a lles (89%).
- Cyflawnodd y rhai sy'n canolbwyntio ar brosiectau addysg a dysgu well hyder, hunan-barch a gwydnwch (86%).
- Prosiectau cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol oedd fwyaf tebygol o sicrhau bod gan bobl fwy o gyswllt cymdeithasol (90%) a gwell iechyd meddwl a lles (86%).
- Dywedodd prosiectau ymgysylltu â'r gymuned eu bod wedi cyflawni mwy o gyswllt cymdeithasol (87%).
- Dywedodd deiliaid grantiau chwaraeon a hamdden eu bod wedi cyflawni mwy o gyswllt cymdeithasol (87%) a gwell iechyd meddwl a lles (87%).
- Nododd prosiectau a oedd yn darparu gweithgareddau digidol-gysylltiedig eu bod wedi sicrhau mwy o gyswllt cymdeithasol (85%) a gwell iechyd meddwl a lles (86%).
- Cyflawnodd prosiectau sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau a threftadaeth fwy o gyswllt cymdeithasol (90%).
- Arweiniodd prosiectau cyflogaeth a menter at fwy o gyswllt cymdeithasol (86%) a gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch 89%.
- Arweiniodd prosiectau a oedd yn darparu cymorth argyfwng yn gyffredin at well iechyd meddwl a lles (94%) a gwell hyder, hunan-barch a gwydnwch (92%). Roedden nhw hefyd yn fwy tebygol na phrosiectau eraill o arwain at well cefnogaeth i bobl gael mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol sydd eu hangen arnynt (68%).
- Dywedodd deiliaid grantiau sy'n darparu cymorth materol a lles yn gyffredin eu bod yn cyflawni gwell iechyd meddwl a lles (89%). Roeddent hefyd yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn darparu gweithgareddau eraill o fod wedi diwallu anghenion sylfaenol pobl o ganlyniad i'r grant (78%).
- Roedd asedau, cyfleusterau, manau a lleoedd cymunedol, y rhai oedd yn canolbwyntio ar yr amgylchedd a phrosiectau cymorth a datblygu'r sector ar y cyfan yn llai tebygol o sicrhau manteision unigol (ond yn hytrach yn fwy tebygol o fod wedi cyfrannu at fanteision sy'n canolbwyntio ar y gymuned).

Mae Ffigur 7.3 yn dangos sut mae'r manteision a gyflawnwyd yn wahanol yn ôl dull gweithgarwch.

Ffigur 7.3 Y berthynas rhwng dull y gweithgaredd a manteision

	Wyneb yn wyneb (yn bersonol)	Dros alwad ffôn	Drwy negeseua (e.e. negeseuon testun, e-bost, WhatsApp neu Livechat)	Drwy alwadau fideo / cyfarfodydd (e.e. Zoom, Teams, FaceTime)	Drwy'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook neu Twitter)	Trwy gyngor neu ddeunyddiau ysgrifenedig, gan gynnwys ar wefannau	* Darparu adnoddau / eitemau ffisegol (gan gynnwys parseli bwyd, pecynnau crefft)
Roedd gan bobl fwy o gswilt cymdeithasol	81.5%	84.0%	86.9%	82.6%	87.1%	80.9%	70.3%
Roedd pobl yn teimlo'n llai unig	71.6%	82.9%	82.3%	81.8%	79.2%	73.6%	71.9%
Roedd gan bobl fynediad at wybodaeth a chefnogaeth i wella eu	53.2%	73.6%	70.7%	72.6%	62.1%	65.5%	39.0%
Mae sefyllfa cyflogaeth pobl wedi gwella	20.8%	28.6%	27.9%	26.3%	24.4%	24.6%	7.5%
Mae sefyllfa tai pobl wedi gwella	9.5%	18.0%	16.3%	14.3%	11.0%	13.2%	3.3%
Gwellwyd lles ariannol a materol pobl	17.2%	30.3%	27.1%	25.1%	20.6%	24.9%	12.2%
Bodlonwyd anghenion sylfaenol tymor byr pobl – bwyd, dillad, siopa,	21.9%	36.6%	35.2%	31.4%	27.1%	27.0%	49.1%
Roedd pobl yn cael eu cefnogi'n well i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yr oedd eu hangen arnynt	29.6%	50.6%	46.0%	44.0%	37.0%	39.2%	28.5%
Roedd iechyd corfforol pobl yn well	47.6%	51.8%	54.3%	48.5%	51.2%	49.0%	33.9%
Roedd iechyd meddwl a lles pobl yn well	82.8%	90.0%	89.0%	90.0%	86.5%	83.4%	85.9%
Pobl yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed, trais neu	16.3%	27.6%	26.5%	26.3%	19.8%	19.9%	4.4%
Roedd addysg a datblygiad pobl yn well	47.5%	47.6%	51.1%	51.5%	51.1%	51.6%	19.0%
Gwellwyd hyder, hunan-barch a gwydnwch pobl	78.6%	86.2%	86.6%	87.2%	80.4%	79.1%	58.0%
* Gwell cyfleusterau i bobl gael mynediad at wasanaethau	1.4%	0.6%	0.7%	0.5%	0.9%	1.6%	1.2%
* Nid oes dim wedi digwydd oherwydd pandemig COVID-19	0.3%	0.1%	0.1%	0.1%	0.2%	0.3%	0.0%
Canlyniadau eraill i fuddiolwyr	1.4%	1.6%	1.9%	1.4%	1.7%	1.7%	1.3%
Dim manteision i fuddiolwyr	0.3%	0.2%	0.1%	0.1%	0.2%	0.4%	1.1%

Gwahaniaethau rhanbarthol rhwng deilliannau sefyllfa

Manteision (fel yr adroddwyd yng nghwestiwn A10) gan Llundain, Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Lloegr (manteision a ddangosir lle mae o leiaf ddau o ranbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig yn wahanol iawn i'r cyfanswm). Mae '*' yn dangos gwahaniaeth arwyddocaol i'r cyfanswm. Dangosir Llundain, Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Lloegr gan eu bod yn y tair ardal lle mae nifer uwch o wahaniaethau o gymharu â chyfanswm y cyfartaledd.

Tabl 5 Gwahaniaethau rhanbarthol rhwng canlyniadau sefyllfaol

Manteision	Cyfanswm	Llundain	Gogledd Ddwyrain	Gogledd Orllewin
Roedd iechyd meddwl a lles pobl yn well	78%	79%	*85%	*85%
Roedd hyder, hunan-barch a gwydnwch pobl wedi gwella	72%	*83%	77%	*81%
Roedd pobl yn teimlo'n llai unig	66%	*71%	*77%	*74%
Roedd gan bobl fynediad at wybodaeth a chefnogaeth i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau am eu sefyllfa	48%	*65%	52%	*53%
Roedd iechyd corfforol pobl yn well	45%	*40%	47%	*50%
Roedd addysg a datblygiad pobl yn well	43%	*55%	38%	*48%
Bodlonwyd anghenion sylfaenol tymor byr pobl – bwyd, dillad, siopa, budd-daliadau	20%	21%	*29%	*23%
Mae sefyllfa cyflogaeth pobl wedi gwella	18%	*28%	19%	*21%
Mae lles ariannol a materol pobl wedi gwella	15%	*19%	18%	*18%
Mae sefyllfa tai pobl wedi gwella	8%	*11%	8%	*10%

“

Mae IFF Research yn taflu goleuni ar gyfer sefydliadau busnesau ac unigolion sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus."

Ein Gwerthoedd:

1. Bod yn ddynol yn gyntaf:

P'un ai'n gyflogwr neu'n gyflogai, yn gleient neu'n gydweithredwr, rydym i gyd yn bobl yn bennaf. Mae cydnabod y ddynoliaeth hanfodol hon yn ganolog i'r ffordd rydym yn cynnal ein busnes, a sut rydym yn byw ein bywydau. Rydym yn parchu ac yn darparu ar gyfer ffordd pob unigolyn o feddwl, gweithio a chyfathrebu, gan gofio'r ffaith bod gan bob un ei stori a'i ffordd ei hun o'i hadrodd.

2. Didueddrwydd ac annibyniaeth:

Mae IFF yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ymchwil sy'n credu mewn gadael i'r dystiolaeth wneud y siarad. Nid ydym yn ymgymryd â phrosiectau sy'n cadarnhau beth yw'r "ateb", ac nid ydym yn cuddio rhag y gwirioneddau y mae ymchwil yn eu datgelu. Rydym yn annibynnol, yn yr ymchwil rydyn ni'n ei gynnal, o flas gwleidyddol neu ddogma. Rydym yn agored ein meddwl, yn ddychmygus ac yn ddeallusol drwyadl.

3. Gwneud gwahaniaeth:

Yn IFF, rydym am wneud gwahaniaeth i'r cleientiaid rydym yn gweithio gyda nhw, ac rydym yn gweithio gyda chleientiaid sy'n rhannu ein huchelgais ar gyfer newid cadarnhaol. Rydym yn disgwyl i holl staff IFF gymryd cyfrifoldeb personol am bopeth a wnânt yn y gwaith, a ddylai bob amser fod y gorau y gallant ei gyflawni.



5ed Llawr
St. Magnus House
3 Lower Thames Street
Llundain
EC3R 6HD
Ffôn: +44(0)20 7250 3035
Gwefan: iffresearch.com

Manylion cyswllt: Mark Winterbotham a Claire Johnson
mark.winterbotham@iffresearch.com
claire.johnson@iffresearch.com